# CYNLLUN DATBLYGU LLEOL
# ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL

1 EBRILL 2023 – 31 MAWRTH 2024

# Tabl Cynnwys

Cyflwyniad ..... 4

Monitro Cynaliadwyedd ..... 7

Monitro Strategaeth ..... 8

Darparu Tai ..... 9

Ffigur 1 – Adeiladau a Gwblhawyd o gymharu â Gofyniad Blynyddol Cyfartalog CDLl ..... 9

Ffigur 2 – Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio ar eu cyfer ..... 11

Ffigur 3 – Nifer yr unedau a gymeradwywyd ac a gwblhawyd ym mhob haen anheddiad ..... 13

Ffigur 4 – Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd iddynt ar safleoedd defnydd cymysg ..... 17

Ffigur 5 – Pob cais y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo i gyflawni dwysedd o 30 annedd yr hectar ..... 18

Ffigur 6 – Targed canran Tai Fforddiadwy ..... 20

Ffigur 7 – Nifer yr anheddau fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd iddynt ..... 21

Ffigur 8 – Nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd ..... 23

Ffigur 9 – Nifer yr anheddau marchnad sy'n dod ymlaen ar safleoedd o 3 annedd neu fwy ..... 24

Ffigur 10 – Nifer yr anheddau fforddiadwy annisgwyl ..... 26

Ffigur 11 – Nifer yr anheddau Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig ..... 27

Ffigur 12 – Meddiannu'r safle Sipsiwn a Theithwyr dynodedig ..... 28

Ffigur 13 – Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 28

Lles Economaidd ..... 29

Ffigur 14 – Datblygu Tir Cyflogaeth ..... 29

Ffigur 15 – Colli Tir Cyflogaeth ..... 30

Ffigur 16 – Datblygiad cyflogaeth ym Mhontsenni a Defynnog ..... 32

Ffigwr 17 – Datblygiad cyflogaeth yn y Gelli Gandryll ..... 33

Ffigur 18 – Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 34

Monitro Polisi ..... 35

Diogelu'r Amgylchedd ..... 35

Ffigur 19 – Tir yng Nghefn Gwlad a gollir i ddatblygiad sy'n gwyro oddi wrth CYD LP1 ..... 35

Ffigur 20 – Datblygiad gydag effaith andwyol ar Ddynodiadau Tirwedd Hanesyddol ..... 36

Ffigur 21 – Datblygiad gydag effaith andwyol ar safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth natur ..... 37

Ffigur 22 – Datblygiad gydag effaith andwyol ar safleoedd dynodedig ar gyfer treftadaeth a chadwraeth adeiladau. ..... 38

Ffigur 23 – Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth gydag asesiadau cyfredol ..... 39

Ffigur 24 – Canllawiau Cynllunio Atodol ..... 40

Newid Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy ..... 41

Ffigur 25 – Datblygiad mewn ardaloedd llifogydd C1 a C2 nad ydynt yn bodloni profion Nodyn Cyngor Technegol 15 ..... 41

Ffigwr 26 – Caniatadau cynllunio yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ynghylch ansawdd/cyfaint dŵr ........................................................................................................ 42
Ffigur 27 – Nifer y ceisiadau sy'n ystyried technegau addasu newid hinsawdd o fewn Datganiadau Dylunio a Mynediad ........................................................................................................ 43
Ffigur 28 – Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mwy sy'n methu â darparu 20% o'u hynni o adnoddau carbon isel neu ddi-garbon ........................................................................ 44
Ffigur 29 – Datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy ........................................................ 45
Ffigur 30 – Capasiti a ganiateir ac a osodir (MW) o brosiectau trydan a gwres adnewyddadwy......... 47
Ffigur 31 – Canllawiau Cynllunio Atodol ........................................................................ 48
Manwerthu ........................................................................................................ 49
Ffigur 32 – Cyfraddau eiddo gwag blynyddol Canol Trefi ................................................. 49
Twristiaeth Gynaliadwy ........................................................................................ 51
Ffigur 33 – Nifer y cyfleusterau twristiaeth newydd neu well ........................................... 51
Cymunedau Cynaliadwy ........................................................................................ 54
Ffigur 34 – Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd sy’n arwain at golli cyfleusterau cymunedol ............. 54
Seilwaith ........................................................................................................ 55
Ffigur 35 – Nifer y datblygiadau newydd sy'n darparu SDCau (Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy)55
Gwastraff ........................................................................................................ 56
Ffigur 36 – Nifer yr unedau gwag o fewn safleoedd Dosbarth B y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cyfleuster gwastraff lleol ........................................................................................ 56
Ffigur 37 – Nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig newydd a ganiateir ............................ 58
Mwynau ........................................................................................................ 59
Ffigur 38 – Nifer y caniatadau ar gyfer datblygiad sterileiddio parhaol o fewn ardal diogelu mwynau ........................................................................................................ 59
Monitro Safle ........................................................................................................ 60
Ffigur 39 ........................................................................................................ 60
Atodiadau ........................................................................................................ 1
Atodiad 1 – Graff a thabl o dai a gwblhawyd yn erbyn Gofyniad Blynyddol Cyfartalog y CDLl ............. 1
Atodiad 2 – Dangosyddion Asesu Cynaliadwyedd Ychwanegol ........................................... 1
Tabl 1 – Dealltwriaeth o’r Gymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol ........................................ 12

# Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod y Parc Cenedlaethol gynhyrchu a chyflwyno Adroddiad Monitro Blynyddol erbyn 31 Hydref bob blwyddyn ar ôl mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol. Mae'r adroddiad yn allweddol wrth asesu cynnydd y Cynllun Datblygu Lleol wrth weithredu'r polisïau sydd wedi'u cynnwys yn y Cynllun ac yn rhoi cyfle i Awdurdod y Parc Cenedlaethol asesu'r Polisïau yn erbyn y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael. Mae'r Adroddiad Monitro Blynyddol hefyd yn cynnwys canlyniadau'r Asesiad Amgylcheddol Strategol/Arfarniad Cynaliadwyedd (Atodiad 2).

Gall yr ymarfer monitro gynorthwyo Awdurdod y Parc Cenedlaethol i: -

- Nodi lle nad yw rhai polisïau yn llwyddo i gyflawni eu hamcanion bwriadedig;
- Nodi bylchau yn y sail dystiolaeth, efallai drwy newid mewn deddfwriaeth neu bolisi cenedlaethol, y mae angen mynd i'r afael â hwy a'u hadlewyrchu yn y Cynllun Datblygu Lleol;
- Nodi meysydd llwyddiant y gellid eu defnyddio fel esiampl ar gyfer newid drwy gydol y Cynllun Datblygu Lleol;
- Nodi'r camau arfaethedig y bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn eu cymryd wrth unioni unrhyw faterion i sicrhau bod y polisi'n cael ei weithredu'n llwyddiannus neu fod unrhyw ddiwygiad y mae angen ei wneud yn cael ei weithredu.

Mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol wedi llunio set o dargedau a dangosyddion sy'n gweithredu fel meincnod y gellir mesur perfformiad yn ei erbyn. Gall targedau ymwneud â chyflawni rhai lefelau datblygu a gellir eu gosod yn flynyddol neu ar bwynt interim o fewn cyfnod y Cynllun. Y targed ar gyfer y Cynllun cyfan yw gweithredu Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol.

Mae'r dangosyddion a'r targedau a nodir yn Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol hefyd yn rhoi pwyntiau sbarduno i ddynodi os nad yw un rhan o'r Cynllun yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir. Os yw'r sbardunau hyn yn cael eu 'taro' yna bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn ystyried y camau angenrheidiol sy'n ofynnol o ganlyniad. Mae sawl canlyniad y gallai Awdurdod y Parc Cenedlaethol eu gweithredu mewn achos o'r fath; bydd y rhain yn dibynnu ar i ba raddau nad yw'r targed wedi'i gyrraedd a pha mor hanfodol yw'r datblygiad i gyflawni Strategaeth y Cynllun Datblygu Lleol. Bydd dangosyddion cyd-destunol hefyd yn cael eu defnyddio yn yr Adroddiad Monitro Blynyddol i werthuso ai'r Cynllun nad yw'n cyrraedd y targedau neu a oes ffactorau allanol (fel yr economi neu newidiadau mewn ffynonellau cyllido ac ati) sy'n cyfrannu yn hyn o beth ac felly y tu hwnt i reolaeth y system gynllunio.

Mae'r opsiynau canlynol ar gael i Awdurdod y Parc Cenedlaethol mewn cysylltiad â phob un o'r dangosyddion a'u sbardunau. Bydd yr Adroddiad Monitro Blynyddol yn asesu difrifoldeb y sefyllfa sy'n gysylltiedig â phob dangosydd ac yn argymell ymateb priodol:

- Parhau i Fonitro
- Angen Hyfforddiant ar Swyddogion/Aelodau
- Angen Canllawiau Cynllunio Atodol/Briffiau Datblygu
- Ymchwil Polisi
- Adolygiad Polisi
- Adolygiad Cynllun/Strategaeth

Fel rhan o'r broses Adroddiad Monitro Blynyddol, bydd Awdurdod y Parc Cenedlaethol hefyd yn cynnwys diweddariad ar ddatblygiad safleoedd dynodedig. Bydd hyn yn tynnu sylw at ba weithgarwch sydd wedi digwydd ar y safle mewn unrhyw flwyddyn benodol, gan gynnwys paratoi astudiaethau neu gynnydd datblygiad. Os nad yw safle'n cael ei ddatblygu fel y rhagwelwyd, caiff hyn ei ddehongli fel sbardun a chymerir camau priodol (gweler uchod) gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol os oes angen.

Cwblhawyd gofynion nifer o'r dangosyddion strategol a pholisi yn ystod cam monitro cyntaf y Cynllun Datblygu Lleol, sef meddiannu'r safle Sipsiwn a Theithwyr dynodedig a datblygu nifer o nodiadau Canllaw Cynllunio Atodol. Yn ystod yr ail gam argymhellwyd dod â'r monitro i ben mewn perthynas â nifer y ceisiadau am ddatblygiadau mwy sy'n methu â darparu 20% o'u ynni o adnoddau carbon isel neu ddi-garbon gan fod y mater hwn yn fater i Ran L o'r Rheoliadau Adeiladu.

Er gwaethaf hyn, bydd llawer o'r dangosyddion strategol a pholisi, fel sy'n ofynnol gan Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, yn parhau i gael eu monitro fel y nodir yn y tablau sydd wedi'u marcio yn wyrdd a melyn isod. O'r rhain, mae nifer fach sydd angen rhywfaint o waith ychwanegol ar ffurf ymchwil polisi yn ogystal â hyfforddiant Swyddogion/Aelodau a Chanllawiau Cynllunio Atodol.

Ar 26 Mawrth 2020, ysgrifennodd[1] y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol at Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cynghori bod polisi cyflenwi tir tai 5-mlynedd Llywodraeth Cymru i gael ei ddisodli ac mai'r llwybr tai, fel y nodir yn y CDLl (Cynllun Datblygu Lleol) mabwysiedig, fyddai'r sail ar gyfer monitro'r ddarpariaeth o ofynion tai'r cynllun datblygu fel rhan o Adroddiadau Monitro Blynyddol (AMBau) y CDLl.

[1] Julie James AC/AM Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol Minister for Housing and Local Government. (n.d.). Ar gael yn: https://www.gov.wales/sites/default/files/publications/2020-03/changes-to-planning-policy-and-guidance-on-the-delivery-of-housing_0.pdf.

Mae'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu (Argraffiad 3) yn rhoi arweiniad ychwanegol ar y broses o fonitro. Mae graff a thabl o adeiladau a gwblhawyd yn erbyn y Gofyniad Cyfartalog Blynyddol bellach wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Mae newidiadau cyd-destunol allweddol eraill yn cynnwys:

- Newid i'r 'Cynllun Datblygu', gyda Cymru'r Dyfodol: cynllun cenedlaethol 2040 wedi'i gyhoeddi yn 2021;
- Sefydlu Cydbwyllgorau Corfforaethol fel haen newydd o lywodraeth ranbarthol yng Nghymru gyda chyfrifoldeb am baratoi 'Cynlluniau Datblygu Strategol';
- Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyhoeddi Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol a Datganiadau Ardal yn 2020;
- Cyhoeddi 'Adroddiad Cyflwr y Parc' yn 2020;
- Tystiolaeth amgylcheddol newydd a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2021; Asesiad Cydymffurfiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o ACAau (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws a chanllawiau ymarfer cysylltiedig a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cael effaith sylweddol ar y cwmpas ar gyfer datblygu yn y rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol (Adroddiad Tystiolaeth 489[2]); Cyhoeddwyd adroddiad newydd ym mis Ionawr 2024 sy'n ategu'r dystiolaeth flaenorol sy'n edrych ar gydymffurfiad yn erbyn saith targed ansawdd dŵr ychwanegol gan gynnwys amonia (Adroddiad Tystiolaeth 729[3]).
- Cyhoeddwyd canllawiau cynllunio wedi'u diweddaru gan CNC ar 28 Mehefin 2024[4];
- Cadarnhad bod Cynllun Datblygu Lleol Bannau Brycheiniog 2007 – 2022 (Mabwysiadwyd 2013) yn cadw statws 'Cynllun Datblygu' y tu hwnt i gyfnod y cynllun nes y gwneir penderfyniad i gefnu arno[5].
- Cafodd y gwaith o baratoi CDLl2 (Cynllun Datblygu Lleol 2) ei 'oedi' o 28 Mai 2021, yn bennaf mewn ymateb i'r materion a gyflwynwyd gan Adroddiad Tystiolaeth 489 CNC (Cyfoeth Naturiol Cymru).

---

[2] Hatton-Ellis, T. a Jones, T. (n.d.). *Compliance Assessment of Welsh River SACs against Phosphorus Targets*. [ar-lein] Ar gael yn: https://afonyddcymru.org/wp-content/uploads/2023/02/compliance-assessment-of-welsh-sacs-against-phosphorus-targets-final-v10.pdf [Cyrchwyd 19 Awst 2024].

[3] Foster, H., Jones, T., Jâms, I. a Hatton-Ellis, T. (n.d.). *Compliance Assessment of Welsh River SACs Against Water Quality Targets*. [ar-lein] Ar gael yn: https://cdn.cyfoethnaturiol.cymru/media/tgplrk4r/compliance-assessment-of-welsh-river-sacs-against-water-quality-targets-accessible-final-1.pdf?mode=pad&amp [Cyrchwyd 19 Ion. 2024].

[4] cyfoethnaturiol.cymru. (n.d.). *Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitive i ffosfforws*. [ar-lein] Ar gael yn: https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/advice-to-planning-authorities-for-planning-applications-affecting-phosphorus-sensitive-river-special-areas-of-conservation/?lang=cy.

[5] LLYW.CYMRU. (2020). *Dyddiadau y bydd Cynllun Datblygu Lleol (CDLl) yn dod i ben: llythyr i awdurdodau lleol [HTML] | LLYW.CYMRU*. [ar-lein] Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/dyddiadau-y-bydd-cynllun-datblygu-lleol-cdll-yn-dod-i-ben-llythyr-i-awdurdodau-lleol-html [Cyrchwyd 19 Awst 2024].

- Mabwysiadu Cynllun Rheoli newydd ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, *Dyfodol y Bannau: 2023-2028* sy'n diffinio'r blaenoriaethau strategol y cytunwyd arnynt ar gyfer y Parc Cenedlaethol.
- Y cytundeb i dynnu'n ôl yn ffurfiol Gynllun Datblygu Lleol Newydd Cyntaf (2018 – 2033) Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ar 7 Mehefin 2024 ac i ailgychwyn y broses amnewid.

# Monitro Cynaliadwyedd

Mae'r gyfarwyddeb Asesiad Amgylcheddol Strategol yn mynnu bod effeithiau amgylcheddol sylweddol gweithredu cynllun yn cael eu monitro fel y gellir cymryd y camau adfer priodol os oes angen.

Ni nododd Arfarniad Cynaliadwyedd y Cynllun Datblygu Lleol unrhyw effeithiau andwyol sylweddol ar yr amcanion, fodd bynnag, nododd yr effeithiau cadarnhaol sylweddol canlynol y mae angen eu monitro.

- Addasiad Newid Hinsawdd (AC1) a Lleihau Nwyon Tŷ Gwydr (AC2) yn ymwneud â Pholisïau PS4: 'Newid Hinsawdd' a PS11: 'Dylunio Cynaliadwy';
- Adnoddau Dŵr (AC5) drwy'r polisi ar Ansawdd Dŵr (Polisi 10);
- Bioamrywiaeth (AC8) mewn perthynas â PS1 Polisi’r Parc Cenedlaethol a PS3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys ei bolisi ategol ar Fioamrywiaeth a Datblygu (Polisi 6);
- Treftadaeth Ddiwylliannol (AC9) mewn perthynas â PS1 (Polisi’r Parc Cenedlaethol) a PS3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys ei bolisi ategol ar Ardaloedd Gwerthuso Archaeolegol (Polisi 22).
- AC11 Tirwedd mewn perthynas â PS1 (Polisi’r Parc Cenedlaethol) a PS3 Diogelu'r Amgylchedd, gan gynnwys ei bolisïau ategol Coed a Datblygu (Polisi 8) a Llygredd Golau (Polisi 6)
- Adnoddau Naturiol a Seilwaith (AC12) drwy bolisïau ar Ddylunio Cynaliadwy (PS11), Seilwaith Cynaliadwy (PS16), Gwastraff (PS6) ac ailgylchu mwynau (Polisi 67)
- Poblogaeth (AC14) mewn perthynas â Dosbarthiad Gofodol Datblygiad (PS10), polisi'r Parc Cenedlaethol (PS1) a pholisïau sy'n ymwneud â thai (PS5), tai fforddiadwy (PS6), lles economaidd (PS12) a chymunedau cynaliadwy (PS15); ac
- Economi (AC17) mewn perthynas â pholisi'r Parc Cenedlaethol (PS1) a pholisïau sy'n ymwneud â lles economaidd (PS12) a manwerthu (PS13).

Mae'r fframwaith Monitro a fabwysiadwyd gan y Cynllun Datblygu Lleol a nodir isod yn mynd i'r afael â rhai o'r gofynion monitro ar gyfer yr AC/AAS. Darperir dangosyddion ychwanegol o fewn yr AC (Arfarniad Cynaliadwyedd) i sicrhau y gellir monitro'r holl effeithiau sylweddol yn yr AC. Mae'r rhain, lle bo hynny'n berthnasol a lle mae data ar gael ar lefel Parc Cenedlaethol,

yn cael eu darparu yn Atodiad 2 a thrwy'r Adroddiad Cwmpasu wedi'i ddiweddaru sydd ar gael o wefan yr APC.

## Monitro Strategaeth

**Allwedd:**

| | |
|---|---|
| | **Angen gweithredu** |
| | **Cwblhawyd** |
| | **Parhau i Fonitro** |
| | **Ymchwil Polisi / CCA (Canllawiau Cynllunio Atodol) / Hyfforddiant Swyddogion ac Aelodau** |
| | **Rhoi'r Gorau i Fonitro** |

| **Cyfnod Monitro** | **Dyddiad:** |
|---|---|
| Cyntaf | 17 Rhagfyr 2013 - 31 Mawrth 2015 |
| Ail | 1 Ebrill 2015 - 31 Mawrth 2016 |
| Trydydd | 1 Ebrill 2016 - 31 Mawrth 2017 |
| Pedwerydd | 1 Ebrill 2017 - 31 Mawrth 2018 |
| Pumed | 1 Ebrill 2018 - 31 Mawrth 2019 |
| Chweched | 1 Ebrill 2019 - 31 Mawrth 2020 |
| Seithfed | 1 Ebrill 2020 - 31 Mawrth 2021 |
| Wythfed | 1 Ebrill 2021 - 31 Mawrth 2022 |
| Nawfed | 1 Ebrill 2022 - 31 Mawrth 2023 |
| Degfed | 1 Ebrill 2023 - 31 Mawrth 2024 |

# Darparu Tai

## Ffigur 1 – Adeiladau a Gwblhawyd o gymharu â Gofyniad Cyfartalog Blynyddol y CDLl




| Cyfnod Monitro | Gofyniad Cyfartalog Blynyddol | Cyfanswm a Gwblhawyd | Cyflenwad Tir |
|---|---|---|---|
| Cyntaf | 133 | 130 | 5.5 |
| Ail | 133 | 58 | 5 |
| Trydydd | 133 | 52 | 4.8 |
| Pedwerydd | 133 | 203 | 3.9 |
| Pumed | 133 | 69 | 2.1 |
| Chweched | 133 | 30 | 2.7 |
| Seithfed | 133 | 67 | 2.7 |
| Wythfed | 133 | 59 | 2.7 |
| Nawfed | 133 | 69 | 1.3 |
| Degfed | 133 | 15 | 1.3 |

**Sylwadau:**

Yn ystod y degfed cyfnod monitro (1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024), mae monitro'n dangos nad yw'r adeiladau a gwblhawyd wedi cadw i fyny â Gofyniad Cyfartalog Blynyddol y CDLl (Gweler y tabl yn atodiad 1). Cyfanswm yr adeiladau a gwblhawyd yw 15 yn erbyn Gofyniad

Cyfartalog Blynyddol o 133. Fe wnaeth Argaeledd Tir Tai 2023-2024 ddychwelyd ffigwr o 1.3 blynedd – 3.7 mlynedd yn is na'r 'trothwy' o 5 mlynedd.

**Argymhelliad:**

Yn unol â'r Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Rhifyn 3, mae darparu tai bellach yn cael ei fonitro yn erbyn Gofyniad Cyfartalog Blynyddol y CDLl. Mae graff newydd wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

Mae’r gwaith o gyflawni'r targed hwn yn parhau i gael ei gyfyngu gan y dystiolaeth a gyhoeddwyd gan Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ionawr 2021 - yr Asesiad Cydymffurfiaeth o ACAau [Ardaloedd Cadwraeth Arbennig] Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws (Adroddiad Tystiolaeth 489) – ynghyd â chyngor cysylltiedig CNC i Awdurdodau Cynllunio Lleol (a ddiweddarwyd yn fwyaf diweddar ym mis Mehefin 2024); mae hyn wedi cael effaith sylweddol ar y cwmpas ar gyfer datblygiad preswyl newydd yn y rhan fwyaf o'r Parc Cenedlaethol. Nid oes dyddiad pendant ar gyfer pryd y bydd yr Adroddiad Cydymffurfiaeth yn cael ei ddiweddaru, er y deellir ei fod yn debygol o gael ei gyhoeddi yn gynnar yn 2025. Nid oes sicrwydd chwaith y bydd y dystiolaeth a'r dadansoddiad wedi'u diweddaru yn dangos bod *Targedau Ffosffad* (Terfynau Critigol) bellach yn cael eu cyrraedd. Yn y cyfamser, mae CNC wedi cynnal Adolygiad o Drwyddedau ar draws dalgylchoedd ACA ar gyfer yr holl Waith Trin Dŵr Gwastraff (GTDGau) sydd â llifau dyddiol o fwy nag 20 metr ciwbig. Mae terfynau ffosffad wedi'u gosod ac mae hyn wedi galluogi capasiti ar gyfer datblygiad preswyl newydd sy'n cysylltu â rhai GTDGau; fodd bynnag, mae’r capasiti hwn yn gyfyngedig ar gyfer y byrdymor, ac mae angen mesurau ehangach i wella ansawdd dŵr ac adfer iechyd ein hafonydd o hyd. Ni ellir gorbwysleisio graddfa’r cyfyngiad amgylcheddol hwn ar gyflawni datblygiad newydd; mae wedi dod i'r amlwg fod yr adeiladau a gwblheir yn flynyddol wedi gostwng yn sylweddol ers cyhoeddi'r dystiolaeth ac mae’n debygol o barhau i fod yn is na'r hyn a ragwelwyd gan y Cynllun Datblygu Lleol.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Angen Gweithredu** |

## Ffigur 2 – Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt




| Cyfnod Monitro | Caniatadau Cynllunio a Roddwyd | Tai a Gwblhawyd |
|---|---|---|
| Cyntaf | 106 | 130 |
| Ail | 117 | 58 |
| Trydydd | 276 | 52 |
| Pedwerydd | 57 | 203 |
| Pumed | 161 | 69 |
| Chwechred | 86 | 30 |
| Seithfed | 29 | 67 |
| Wythfed | 2 | 59 |
| Nawfed | 5 | 69 |
| Degfed | 6 | 15 |

**Sylwadau:**

Gan fod monitro'r cyflenwad tir 5-mlynedd wedi'i ddiwygio i fonitro’r adeiladau a gwblheir yn flynyddol yn erbyn Gofyniad Cyfartalog Blynyddol y CDLl, bydd y dangosydd hwn nawr yn canolbwyntio ar nifer y cartrefi (enillion net) y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn y flwyddyn.

Yn y flwyddyn y mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â hi, rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 6 chartref newydd.

**Argymhellion:**

Mae'r dangosydd blynyddol yn dangos nad yw caniatâd ar gyfer cartrefi newydd yn cyfateb i dwf arfaethedig y Cynllun. Mae angen gwaith ymchwil ac ymchwilio pellach i'r rhesymau dros hyn, yn enwedig ar lwybr tuag at gyrraedd Targedau Ffosfforws yn nalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig afonol y Parc Cenedlaethol a, lle nad ydyn nhw'n cyfateb, ar ddod â nodweddion dynodedig ACA yn ôl i Gyflwr Ffafriol (ond noder yr uchod). Bydd ymgysylltu â hyfywedd datblygiad rhanbarthol, y farchnad dai ac anghenion tai hefyd yn bwysig. Mae amcanestyniadau poblogaeth ac aelwydydd is-genedlaethol 2018 bellach ar gael ar gyfer y Parc Cenedlaethol ac mae angen ymgorffori'r rhain mewn Asesiadau Marchnadoedd Tai Rhanbarthol a Lleol.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Angen Gweithredu** |

## Ffigur 3 – Nifer yr unedau a gymeradwywyd ac a gwblhawyd ym mhob haen anheddiad




| **Caniatadau** | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad** | **2013 - 2015** | **2015 - 2016** | **2016 - 2017** | **2017 - 2018** | **2018 - 2019** | **2019 - 2020** | **2020 - 2021** | **2021 - 2022** | **2022 - 2023** | **2023 - 2024** |
| **Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu** | 1% | 14% | 2% | 7% | 89% | 54% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Aneddiadau Allweddol** | 8% | 41% | 48% | 30% | 4% | 28% | 83% | 50% | 20% | 50% |
| **Aneddiadau** | 88% | 35% | 13% | 51% | 3% | 17% | 17% | 0% | 60% | 16% |
| **Aneddiadau Twf Cyfyngedig** | 3% | 5% | 7% | 0% | 1% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |
| **Cefn Gwlad** | 0% | 5% | 9% | 12% | 5% | 0% | 0% | 50% | 20% | 33% |
| **Safleoedd Tir Llwyd Dynodedig** | 0% | 0% | 21% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |




| **Cwblhawyd** | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lleoliad** | **2013 - 2014** | **2014 - 2015** | **2015 - 2016** | **2016 - 2017** | **2017 - 2018** | **2018 - 2019** | **2019 - 2020** | **2020 - 2021** | **2021 - 2022** | **2022 - 2023** | **2023 - 2024** |
| **Prif Anheddiad Allweddol Aberhonddu** | 0% | 0% | 9% | 6% | 7% | 2% | 10% | 78% | 90% | 36% | 46% |
| **Aneddiadau Allweddol** | 14% | 0% | 9% | 8% | 56% | 47% | 7% | 9% | 0% | 1% | 26% |
| **Aneddiadau** | 16% | 45% | 54% | 61% | 23% | 31% | 30% | 1% | 5% | 32% | 0% |
| **Aneddiadau Twf Cyfyngedig** | 24% | 0% | 20% | 6% | 3% | 14% | 20% | 0% | 2% | 27% | 0% |
| **Cefn Gwlad** | 46% | 55% | 9% | 19% | 11% | 7% | 27% | 12% | 3% | 4% | 26% |
| **Safleoedd Tir Llwyd Dynodedig** | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% | 0% |

## Sylwadau:

***Caniatadau:***

Un o amcanion y CDLl yw annog datblygiad mewn lleoliadau cynaliadwy ger cyfleusterau a gwasanaethau gan felly leihau'r angen i deithio, gan barchu dibenion a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol ar yr un pryd. Mae'n galonogol felly gweld parhad gyda’r rhan fwyaf o unedau preswyl y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn cael eu lleoli naill ai o fewn Prif

Anheddiad Allweddol Aberhonddu, Aneddiadau Allweddol Crucywel, y Gelli Gandryll, Talgarth a Phontsenni a Defynnog ynghyd â'r Aneddiadau Lefel 3.

Mae hwn yn ddangosydd tair blynedd gyda sbardun asesu o fwy na 50% o'r anheddau y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddynt yn cael eu lleoli y tu allan i'r Prif Aneddiadau Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol.

***Adeiladau a Gwblhawyd:***

Mae'r dangosydd hwn yn gofyn am y gyfran leoliadol ganlynol o adeiladau a gwblheir:

- Prif Anheddiad Allweddol – 20%
- Aneddiadau Allweddol – 27%
- Aneddiadau – 28%
- Safleoedd Tir Llwyd Dynodedig – 0%

Nodir canran (a nifer) yr adeiladau a gwblhawyd fesul haen anheddiad am y blynyddoedd ers mabwysiadu'r CDLl yn y tabl isod:

| Blwyddyn | Cyfanswm yr unedau | % o fewn Prif Anheddiad (nifer) | % o fewn Anheddiad Allweddol (nifer) | % o fewn Anheddiad (nifer) | % o fewn Tir Llwyd Dynodedig (nifer) |
|---|---|---|---|---|---|
| **2013/14** | 64 | 0 (0) | 0 (0) | 45 (29) | 0 (0) |
| **2014/15** | 45 | 0 (0) | 14 (6) | 16 (7) | 0 (0) |
| **2015/16** | 58 | 9 (5) | 9 (5) | 54 (31) | 0 (0) |
| **2016/17** | 52 | 6 (3) | 8 (4) | 61 (32) | 0 (0) |
| **2017/18** | 203 | 7 (14) | 56 (114) | 23 (47) | 0 (0) |
| **2018/19** | 89 | 2 (2) | 47 (41) | 31 (27) | 0 (0) |
| **2019/20** | 30 | 10 (3) | 6.5 (2) | 30 (9) | 0 (0) |
| **2020/21** | 67 | 78 (52) | 9 (6) | 1 (1) | 0 (0) |
| **2021/22** | 59 | 90 (53) | 0 (0) | 3 (5) | 0 (0) |
| **2022/23** | 69 | 36 (25) | 1 (1) | 32 (22) | 0 (0) |
| **2023/24** | 15 | 46 (7) | 26 (4) | 0 (0) | 0 (0) |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | 751 | 21% | 24% | 29% | 0% |
| **Cyfanswm 3 blynedd** | 143 | 59% | 3% | 18% | 0% |

Mae'r fframwaith monitro yn nodi y bydd yr asesiad yn cael ei sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn os bydd llai na 50% o anheddau a gwblheir yn digwydd o fewn y Prif Anheddiad Allweddol a'r Aneddiadau Allweddol dros gyfnod o dair blynedd. Mae'r tabl uchod yn dangos bod yr adeiladau a gwblheir ym Mhrif Anheddiad Allweddol Aberhonddu wedi aros yn uchel yn ystod y 3 blynedd ddiwethaf, dros y lefelau targed.

Dylid nodi nad yw'r data ar adeiladau a gwblhawyd yn cydberthyn yn arbennig o dda i'r data caniatadau. I'r perwyl hwn, awgrymir nad oes llawer o gwmpas i elfen adeiladau a gwblhawyd y dangosydd hwn y tu hwnt i ddibenion 'er gwybodaeth'.

### Argymhellion:

Er bod y cyfnod ar gyfer y dangosydd hwn wedi'i gwblhau, mae angen parhau i fonitro'r dangosydd.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 4 – Nifer yr anheddau y rhoddwyd caniatâd iddynt ar safleoedd defnydd cymysg




**Sylwadau:**

Caniatawyd caniatâd cynllunio llawn ar apêl am 119 o anheddau a chyfleusterau cyflogaeth ar dir yn Ffordd Cerrigcochion, Penlan, Aberhonddu.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio amlinellol ar gyfer nifer ddangosol o 68 o anheddau a chyfleusterau cyflogaeth yn Hen Wersyll y Fyddin, Cwrt-y-Gollen (CS66). Rhoddwyd caniatâd hefyd i 15 o gartrefi ar y safle 'SALT 037 – Estyniad arfaethedig i T9, Talgarth'.

Mae briff datblygu hefyd wedi'i gymeradwyo ar gyfer CS111 – Cyn-Ysbyty Canolbarth Cymru, Talgarth (125).

**Argymhelliad:**

Nid oes unrhyw sbardun asesu ar gyfer y dangosydd hwn. Yn unol â hynny, bydd hyn yn cael ei fonitro dros weddill cyfnod y cynllun.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 5 – Pob cais y rhoddwyd caniatâd cynllunio iddo i gyflawni dwysedd o 30 annedd yr hectar




| Dwysedd Safle | 2013 - 2015 | 2015 - 2016 | 2016 - 2017 | 2017 - 2018 | 2018 - 2019 | 2019 - 2020 | 2020 - 2021 | 2021 - 2022 | 2022 - 2023 | 2023 - 2024 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| O dan 20 annedd yr hectar | 16 | 10 | 11 | 8 | 6 | 6 | 1 | 1 | 4 | 4 |
| 20 - 30 annedd yr hectar | 5 | 4 | 11 | 5 | 4 | 0 | 1 | 0 | 1 | 2 |
| 30+ annedd yr hectar | 5 | 3 | 5 | 8 | 0 | 5 | 1 | 0 | 0 | 0 |

**Sylw:**

Mae Polisi 61 y Cynllun Datblygu Lleol yn ymwneud â dwysedd anheddau ac yn nodi:

*"Bydd yn ofynnol i bob datblygiad preswyl gael ei ddatblygu ar isafswm dwysedd o 30 annedd i'r hectar, lle mae hyn yn gydnaws â chymeriad presennol yr ardal.*

*Dim ond lle profir na ellir cyflawni'r dwysedd hwn o ganlyniad i ymgorffori mesurau i wella cynaliadwyedd y cynllun na ellir eu lleoli ar dir y tu allan i'r dyraniad y caniateir lefelau is na'r targed lleiaf."*

Mae rhywfaint o hyblygrwydd yn y polisi hwn a fyddai'n caniatáu i ddatblygiad gael ei gymeradwyo ar lefel dwysedd o dan 30 annedd yr hectar, megis cymeriad yr ardal gyfagos. Ar

ben hynny, bu achosion lle cytunwyd ar lefel is o ddwysedd oherwydd amodau annormal ar y safle - topograffi a chyfyngiadau mynediad er enghraifft.

Argymhellwyd yn yr Adroddiad ar gyfer y cyfnod monitro cyntaf:

*"Mae'r dangosydd yn awgrymu nad yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu'n gyfan gwbl yn ôl yr angen. Fodd bynnag, rhaid nodi bod hyblygrwydd o fewn y polisi sy'n caniatáu i ddatblygiad ddigwydd ar ddwysedd o dan 30 annedd yr hectar. Yn unol â hynny, mae angen ymchwil pellach mewn perthynas â'r canlynol:*

- *Ymchwilio i nifer y safleoedd dynodedig sydd wedi cael caniatâd cynllunio ar ddwysedd o lai na 30 annedd yr hectar*
- *Penderfynu ar y rhesymau penodol dros ganiatáu lefel is o ddwysedd anheddau*

*Yn dibynnu ar ganlyniadau'r ymchwil polisi hwn, efallai y bydd yn ofynnol i Swyddogion Rheoli Datblygu ac Aelodau'r Awdurdod gael hyfforddiant ychwanegol mewn perthynas â gofynion Polisi 61. Ystyriaeth bellach fydd datblygu darn ychwanegol o Ganllawiau Cynllunio Atodol i fynd i'r afael â'r mater o ddwysedd anheddau a chymysgedd o dai a dyraniadau defnydd cymysg."*

Yn ychwanegol at yr argymhelliad hwn, cynhaliwyd archwiliad o'r cynigion ymgeisio perthnasol a phenderfynwyd bod pob un yn dod o fewn lefelau goddefgarwch Polisi 61. Hynny yw, mae'n rhesymol awgrymu mai dim ond ar gyfer cynigion datblygu o dan ddwysedd o 30ayh lle na ellid eu cyflawni neu lle na fyddai dwysedd 30+ayh yn gydnaws ag amgylchoedd y safle penodol y rhoddwyd caniatâd cynllunio.

Er gwaethaf hyn, cafodd Swyddogion Rheoli Datblygu hyfforddiant gan y Tîm Strategaeth a Pholisi i sicrhau bod y polisi'n cael ei ddehongli'n briodol.

**Argymhelliad:**

Mae'r dangosydd yn awgrymu nad yw'r polisi hwn yn cael ei weithredu yn ôl yr angen. Fodd bynnag, rhaid nodi bod hyblygrwydd o fewn y polisi sy'n caniatáu i ddatblygiad ddigwydd ar ddwysedd o dan 30 annedd yr hectar.

| **Statws** | **Ymchwil Polisi** |
|---|---|

## Ffigur 6 – Targed canran Tai Fforddiadwy

| **Targed canran Tai Fforddiadwy** | |
|---|---|
| **Cyfnod Monitro** | **Mynegai Prisiau Tai y Gofrestrfa Tir (Merthyr Tudful) (%)** |
| **Cyntaf** | Cynnydd o 13% |
| **Ail** | Gostyngiad o 1.75% |
| **Trydydd** | Cynnydd o 1.4% |
| **Pedwerydd** | Cynnydd o 1.3% |
| **Pumed** | Cynnydd o 0.2% |
| **Chweched** | Cynnydd o 5.23% |
| **Seithfed** | Gostyngiad o 11.1% |
| **Wythfed** | Cynnydd o 22.7% |
| **Nawfed** | Cynnydd o 22.7% |
| **Degfed** | Gostyngiad o 11.6% |

**Sylw:**

Y sbardun asesu ar gyfer y dangosydd hwn yw newid o 2.5% mewn prisiau tai yn ardal is-farchnad Blaenau'r Cymoedd a newid o 5% ar draws gweddill ardal y Parc Cenedlaethol.

**Argymhelliad:**

O ystyried bod data'r Gofrestrfa Tir, ynghyd â'r data Pecyn Cymorth Arfarnu Datblygu, yn awgrymu cynnydd cyffredinol sylweddol mewn prisiau tai yn ardal Blaenau'r Cymoedd, bydd angen i'r Awdurdod ystyried profion hyfywedd ychwanegol gyda'r bwriad o addasu'r targedau Cyfraniad Tai Fforddiadwy (os yn briodol) fel rhan o ddatblygiad CDLl2.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Ymchwil Polisi** |

## Ffigur 7 – Nifer yr anheddau fforddiadwy y rhoddwyd caniatâd iddynt




| Cyfnod Monitro | Nifer y caniatadau a roddwyd ar gyfer TFf | % y caniatadau preswyl | Yn erbyn dangosydd perfformiad o 47 o ganiatadau TFf y flwyddyn (+/- 30%) |
|---|---|---|---|
| Cyntaf | 24 | 17% | -23 |
| Ail | 45 | 38% | -2 |
| Trydydd | 63 | 23% | +16 |
| Pedwerydd | 9 | 12% | -38 |
| Pumed | 21 | 13% | -26 |
| Chweched | 55 | 19% | +8 |
| Seithfed | 19 | 66% | -28 |
| Wythfed | 0 | 0% | -47 |
| Nawfed | 0 | 0% | -47 |
| Degfed | 0 | 0% | -47 |

**Sylw:**

Y targed ar gyfer y dangosydd hwn yw 47 o anheddau Tai Fforddiadwy i gael caniatâd cynllunio y flwyddyn (+/- 30%). Mae yna hefyd sbardun asesu o lai na 38 o anheddau Tai Fforddiadwy yn cael eu darparu'n flynyddol am 3 blynedd yn olynol.

Rhoddwyd caniatâd cynllunio ar gyfer 55 o dai fforddiadwy yn ystod 2019/20 a 19 o dai fforddiadwy yn 2020/21, ond ni roddwyd caniatâd ar gyfer tai fforddiadwy ers y cyfnod hwn ac felly nid yw'n cyrraedd y dangosydd targed.

Mae hyn yn debygol o fod o ganlyniad i'r sefyllfa ffosffad y mae Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ei hwynebu a chynnydd mewn costau adeiladu a hyd nes y ceir datrysiad neu ddulliau

lliniaru, mae'n annhebygol y bydd y targedau a nodir yn y CDLl yn cael eu cyrraedd mewn adroddiadau monitro blynyddol sydd ar ddod.

**Argymhelliad:**

Bydd y dangosydd hwn yn cael ei fonitro am flwyddyn arall.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Angen Gweithredu** |

## Ffigur 8 – Nifer yr anheddau fforddiadwy a gwblhawyd




| Cyfnod Monitro | Nifer y TFf a Gwblhawyd | Targed Cwblhau TFf |
|---|---|---|
| Cyntaf | 37 | 15 |
| Ail | 10 | 15 |
| Trydydd | 24 | 15 |
| Pedwerydd | 41 | 15 |
| Pumed | 28 | 15 |
| Chweched | 2 | 15 |
| Seithfed | 21 | 15 |
| Wythfed | 32 | 15 |
| Nawfed | 10 | 15 |
| Degfed | 6 | 15 |

**Sylw:**

Ni chyflawnwyd y dangosydd targed (20 uned) yn ystod dau gyfnod monitro, 2022/23 a 2023/24.

Mae'r ail sbardun asesu yn ei gwneud yn ofynnol i fwy na 15 o anheddau Tai Fforddiadwy gael eu cwblhau bob blwyddyn am dair blynedd yn olynol. Cyfanswm nifer y tai fforddiadwy a gwblhawyd dros y 3 chyfnod monitro diwethaf yw 48 uned, sef cyfartaledd o 16 y flwyddyn.

**Argymhelliad:**

Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |
|---|---|

## Ffigur 9 – Nifer yr anheddau marchnad sy'n dod ymlaen ar safleoedd o 3 annedd neu fwy




| **Cyfnod Monitro** | **Nifer y Tai Marchnad Agored** | **Nifer y Safleoedd** | **Tai Fforddiadwy a Gollwyd** |
|---|---|---|---|
| Cyntaf | | | 13 |
| Ail | 25 | 4 | 5 |
| Trydydd | 23 | 4 | 19 |
| Pedwerydd | 0 | 0 | 0 |
| Pumed | 119 | 1 | 23 |
| Chweched | 5 | 1 | 2 |
| Seithfed | 10 | 2 | 2 |
| Wythfed | 0 | 0 | 0 |
| Nawfed | 0 | 0 | 0 |
| Degfed | 0 | 0 | 0 |

**Sylw:**

Mae Polisi 28 y CDLl yn ceisio galluogi tai fforddiadwy ar safleoedd lle mae cynnydd net mewn tai ar lefelau targed penodol, ond gwneir darpariaeth o fewn y polisi i alluogi gostwng lefel y tai fforddiadwy islaw'r lefelau targed oherwydd tystiolaeth gadarn sy'n dangos nad yw lefelau targed yn hyfyw.

Mae'r dangosydd hwn yn ceisio monitro i ba raddau y gall cynlluniau preswyl a ganiateir fodloni lefelau targed o dai fforddiadwy. Mae'r dangosydd hwn yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â'r bwlch posibl rhwng dyheadau polisi a darpariaeth y farchnad drwy geisio monitro nifer y tai fforddiadwy a 'gollwyd' oherwydd profion hyfywedd.

Bydd targedau tai fforddiadwy lefel polisi yn cael eu hadolygu fel rhan o baratoi CDLl2.

**Argymhelliad:**

Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro.

| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |
|---|---|

## Ffigur 10 – Nifer yr anheddau fforddiadwy anrhagweladwy




**Sylwadau:**

Nid yw'r targed blynyddol o 3 annedd Tai Fforddiadwy anrhagweladwy yn cael caniatâd cynllunio y flwyddyn wedi ei gyrraedd am bum mlynedd yn olynol ac mae hyn yn sbarduno asesiad i'r rhesymau. Er nad yw'r asesiad wedi dechrau eto, mae'r nifer fach o ganiatadau cynllunio a roddwyd yn 2023/24 ar gyfer cartrefi newydd (6 annedd newydd) yn nodi efallai nad yw’r duedd hon yn benodol i Ganiatadau Aneddiadau Fforddiadwy Anrhagweladwy.

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, rhoddwyd caniatâd cynllunio i 0 annedd fforddiadwy anrhagweladwy.

**Argymhellion:**

Bydd y dangosydd yn parhau i gael ei fonitro a chaiff asesiad ei wneud o'r rhesymau pam nad yw'r targed blynyddol o 3 annedd Tai Fforddiadwy anrhagweladwy yn cael caniatâd cynllunio y flwyddyn wedi'i gyrraedd yn unrhyw un o'r 3 blynedd flaenorol

Er bod amodau anffafriol yn y farchnad yn debygol o fod yn ffactor sylweddol wrth ddatblygu tai fforddiadwy anrhagweladwy, rhaid nodi hefyd y bydd y broblem ffosffad yn gwaethygu ffactorau yn erbyn cyflawni'r targed hwn.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Ymchwil Polisi** |

## Ffigur 11 – Nifer yr anheddau Fforddiadwy ar Safleoedd Eithriedig




**Sylwadau:**

Er nad yw'r targed blynyddol o 4 annedd Fforddiadwy yn cael caniatâd cynllunio wedi'i gyrraedd, dylid nodi nad yw hyn oherwydd gwrthod unrhyw gais cynllunio. Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau 'safle eithriedig' yn ystod y cyfnod, a all fod y tu hwnt i reolaeth yr Awdurdod. Yn unol â hynny, o ystyried ei fod yn ymwneud â 'datblygiad eithriadol,' ystyrir a fydd y dangosydd hwn yn cael ei fonitro yn y dyfodol.

Gweler hefyd sylwebaeth uchod yn ymwneud â safleoedd tai fforddiadwy anrhagweladwy, amodau'r farchnad a'r argyfwng ffosffad.

**Argymhellion:**

Parhau i fonitro ond ystyried a ddylai'r dangosydd hwn barhau i gael ei fonitro yn y dyfodol.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 12 – Meddiannu'r safle Sipsiwn a Theithwyr dynodedig

| **Meddiannu'r safle Sipsiwn a Theithwyr dynodedig** | |
|---|---|
| Mae'r safle Sipsiwn a Theithwyr dynodedig wedi cael ei ddatblygu a'i feddiannu gan y teulu. | |
| **Sylw:**<br><br>Yn dilyn rhoi caniatâd cynllunio ar 27 Mawrth 2012 ar gyfer safle Sipsiwn a Theithwyr parhaol arfaethedig, datblygwyd y 14 llain y rhoddwyd caniatâd iddynt. | |
| **Argymhelliad:**<br><br>Roedd y fframwaith monitro yn ei gwneud yn ofynnol i'r safle hwn gael ei feddiannu erbyn 2017. Mae'r safle eisoes wedi'i ddatblygu a'i feddiannu felly nid oes angen monitro pellach. | |
| **Statws** | **Wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod monitro blaenorol** |

## Ffigur 13 – Canllawiau Cynllunio Atodol

| **Canllawiau Cynllunio Atodol** | |
|---|---|
| Cynhyrchwyd Canllawiau Cynllunio Atodol mewn perthynas â'r canlynol:<br>• Strategaeth Tai Fforddiadwy<br>• CCA Tai Fforddiadwy<br>• Strategaeth Rhwymedigaethau Cynllunio<br>• CYD LP1: Datblygiad Priodol yng Nghefn Gwlad<br>• Atodiad i CYD LP1: Datblygiad Priodol yng Nghefn Gwlad | |
| **Sylw:**<br><br>Yn unol â gofynion Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Aelodau wedi cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol uchod. Mae'r dogfennau canllaw hyn yn ystyried ac yn mynd i'r afael â'r 6 Chanllaw Cynllunio Atodol y cyfeirir atynt yn adran 'Darparu Tai' Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol. | |
| **Argymhelliad:**<br><br>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol wedi'u cwblhau. Yn unol â hynny, nid oes angen monitro pellach. | |
| **Statws** | **Wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod monitro blaenorol** |

# Lles Economaidd

## Ffigur 14 – Datblygu Tir Cyflogaeth




**Sylwadau:**

Y sbardun ar gyfer asesu mewn perthynas â'r dangosydd hwn yw bod llai na 0.5 hectar o dir cyflogaeth a ddyrannwyd yn cael ei ddatblygu erbyn 2017 a 0.75 hectar erbyn diwedd cyfnod y Cynllun. Fel y cyfeirir ato uchod, mae cyfanswm o 1.923 hectar o dir cyflogaeth wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer defnydd B1, B2 a B8 yn ystod y cyfnod monitro. Dylid nodi hefyd bod cyfanswm o 0.66 hectar o ddatblygiad cyflogaeth wedi digwydd ers mabwysiadu'r CDLl - cyfanswm o 1.44 hectar i gyd.

I gefnogi'r Adolygiad o'r Cynllun Datblygu Lleol a ddechreuodd ym mis Rhagfyr 2017, comisiynodd yr Awdurdod waith casglu tystiolaeth i ddechrau ar ffurf Adolygiad Tir Cyflogaeth cynhwysfawr. Bydd hwn yn ffurfio darn allweddol o dystiolaeth ar gyfer yr Adolygiad a bydd yn nodi opsiynau sy'n ymwneud â'r lefel ofynnol o dir cyflogaeth newydd y mae angen ei ddyrannu ar gyfer cyfnod y CDLl newydd, er y bydd angen diweddaru hyn pan fyddwn yn dechrau adolygu'r CDLl (gan ddisgwyl dechrau erbyn dechrau 2025 ar ôl i ni gael cytundeb ar ein Cytundeb Cyflawni).

Paratowyd asesiadau pellach *(Asesiad a Chynllun Gweithredu Safleoedd Cyflogaeth a Mangreoedd Canolbarth Cymru)* er mwyn llywio portffolio Bargen Twf Canolbarth Cymru.

**Argymhellion:**

Mae'r dangosydd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i o leiaf 0.5ha o dir cyflogaeth gael ei ddatblygu erbyn 2017, a 0.75 hectar dros gyfnod y Cynllun. Yn unol â hynny, mae gofynion y dangosydd hwn wedi'u bodloni.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod monitro blaenorol** |

## Ffigur 15 – Colli Tir Cyflogaeth




| **Cyfnod Monitro** | **Nifer y caniatadau** | **Cyf. ceisiadau cynllunio:** | **Disgrifiad** | **Lleoliad** |
|---|---|---|---|---|
| Cyntaf | 0 | | | |
| Ail | 0 | | | |
| Trydydd | 0 | | | |
| Pedwerydd | 0 | | | |
| Pumed | 0 | | | |
| Chweched | 0 | | | |
| Seithfed | 1 | 20/18408/FUL | Newid defnydd o B8 i D2 (Campfa) | Ystâd Ddiwydiannol Ffrwdgrech, Aberhonddu |
| Wythfed | 1 | 21/19880/FUL | Newid defnydd o B8 i D1 (Milfeddyg) | Ystâd Ddiwydiannol Ffrwdgrech, Aberhonddu |
| Nawfed | 0 | | | |
| Degfed | 2 | 23/21967/FUL<br>23/22408/FUL | Newid defnydd o B2 i Sui Generis (Gorsaf Heddlu)<br>Newid defnydd o B1 i A1 (Manwerthu) | Ystâd Ddiwydiannol Ffrwdgrech, Aberhonddu<br>Ystâd Elvicta, Crucywel |

**Sylwadau:**

Dim.

**Argymhellion:**

Y sbardun ar gyfer asesu ar gyfer y dangosydd hwn yw 1 cais yn cael caniatâd cynllunio ar dir cyflogaeth presennol ar gyfer defnydd tir nad yw'n gyflogaeth. Rhoddwyd 4 caniatâd gydag unedau dosbarth B yn cael eu colli. Yn unol â hynny, bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro a bydd yn destun Ymchwil Polisi.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Ymchwil Polisi** |

## Ffigur 16 – Datblygiad cyflogaeth ym Mhontsenni a Defynnog




**Sylwadau:**

Cynhwyswyd y dangosydd hwn gan fod safle cyflogaeth arfaethedig a ddyrannwyd wedi cael ei dynnu'n ôl o'r Cynllun Datblygu Lleol gan y tirfeddiannwr yn ystod yr Archwiliad. Byddai asesiad yn cael ei sbarduno pe na bai 1.43 hectar o dir cyflogaeth yn cael caniatâd cynllunio o fewn neu y tu hwnt i anheddiad Pontsenni a Defynnog erbyn 2017.

Dylid nodi bod Adolygiad Tir Cyflogaeth yr Awdurdod yn nodi gofyniad i ddarparu 1.46ha o dir cyflogaeth ar gyfer ardal gyfan y Parc Cenedlaethol hyd at ddiwedd cyfnod y Cynllun.

Rhoddwyd un caniatâd ar gyfer datblygiad sy’n cynhyrchu cyflogaeth o fewn Pontsenni a Defynnog o fewn yr Wythfed cyfnod monitro, gan arwain at 0.12ha o ddefnydd B8 (Cyf: 20/19074/FUL - Newid defnydd arfaethedig o iard ac ysgubor presennol o Ddefnydd Amaethyddol (Sui Generis) i Ddefnydd Cymysg o Amaethyddiaeth a storio a dosbarthu B8 (porthiant a sarn anifeiliaid) a gosod hopiwr porthiant).

**Argymhellion:**

Bydd y dangosydd yn cael ei fonitro am flwyddyn arall neu hyd nes y cyrhaeddir y targed monitro.

Bydd y mater hefyd yn cael sylw drwy baratoi'r CDLl newydd.

| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |
|---|---|

## Ffigur 17 – Datblygiad cyflogaeth yn y Gelli Gandryll




**Sylwadau:**

Roedd y caniatâd a roddwyd o fewn y seithfed cyfnod monitro yn cynnwys newid defnydd o ddefnydd preswyl llawr cyntaf i ddefnydd busnes B1. Arweiniodd hyn at 0.0088ha o dir cyflogaeth ychwanegol (cyf: 20/19309/FUL). Roedd y caniatâd a roddwyd o fewn y pumed cyfnod monitro yn cynnwys newid defnydd o hen fanc (A2) i fusnes (rhannol) (B1) a phreswyl (rhannol) (C3).

Cynhwyswyd y dangosydd hwn gan fod caniatâd cynllunio wedi'i roi ar gyfer defnydd cymunedol ar dir a ddynodwyd at ddefnydd cyflogaeth cyn mabwysiadu'r CDLl. Byddai asesiad yn cael ei sbarduno pe na bai 0.6 hectar o dir cyflogaeth yn cael caniatâd cynllunio o fewn neu y tu hwnt i anheddiad y Gelli Gandryll erbyn 2017.

Dylid nodi bod Adolygiad Tir Cyflogaeth yr Awdurdod yn nodi gofyniad i ddarparu 1.46ha o dir cyflogaeth ar gyfer ardal gyfan y Parc Cenedlaethol hyd at ddiwedd cyfnod y Cynllun.

Yn ogystal, cynigir dyraniad defnydd cymysg 4.2 ha sy'n cynnwys 2.4 ha o dir cyflogaeth yng Nghynllun Datblygu Lleol ar Adnau Cyngor Sir Powys. Cyfeirir at y safle fel Tir yn Gypsy Castle Lane (Cyf Safle: MUA 1) yn union gerllaw ffin anheddiad y Gelli Gandryll. Ystyrir y byddai datblygu'r safle hwn yn bodloni gofynion y dangosydd hwn.

**Argymhellion:**

Bydd y dangosydd yn cael ei fonitro am flwyddyn arall neu hyd nes y cyrhaeddir y targed monitro. Bydd y mater hefyd yn cael sylw fel rhan o'r CDLl newydd.

| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |
|---|---|

## Ffigur 18 – Canllawiau Cynllunio Atodol

| **Canllawiau Cynllunio Atodol** | |
|---|---|
| Mae'r Aelodau wedi cymeradwyo Canllawiau Cynllunio Atodol Arallgyfeirio Ffermydd i'w defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol. | |
| **Sylw:**<br><br>Dim. | |
| **Argymhelliad:**<br><br>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol wedi'u cwblhau. Yn unol â hynny, nid oes angen monitro pellach. | |
| **Statws** | **Wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod monitro blaenorol** |

# Monitro Polisi

## Diogelu'r Amgylchedd

### Ffigur 19 – Tir yng Nghefn Gwlad a gollir i ddatblygiad sy'n gwyro oddi wrth CYD LP1




**Sylwadau:**

Cafodd Swyddogion Rheoli Datblygu hyfforddiant gan y Tîm Strategaeth a Pholisi yn dilyn y cyfnod monitro cyntaf i sicrhau bod y polisi'n cael ei ddehongli'n briodol.

I'r perwyl hwn, dylid nodi bod achosion o wyro oddi wrth y polisi hwn wedi gostwng yn sylweddol ers y cyfnod monitro cyntaf, gyda'r holl ddatblygiadau a ganiateir yng Nghefn Gwlad (fel y'u diffinnir gan y CDLl) yn unol â Pholisi CDLl CYD LP1.

**Argymhellion:**

Argymhellir bod y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 20 – Datblygiad gydag effaith andwyol ar Ddynodiadau Tirwedd Hanesyddol




**Sylwadau:**

Dim.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 21 – Datblygiad gydag effaith andwyol ar safleoedd dynodedig ar gyfer cadwraeth natur




**Sylwadau:**

Dim.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, ystyrir ei fod yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro, yn enwedig o ystyried Asesiad Cydymffurfiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o ACAau Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws (Adroddiad Tystiolaeth 489), sy'n cael effaith sylweddol ar y cwmpas ar gyfer datblygu yn llawer o'r Parc Cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 22 – Datblygiad gydag effaith andwyol ar safleoedd dynodedig ar gyfer treftadaeth a chadwraeth adeiladau




**Sylwadau**

Yn ystod yr ail gyfnod monitro, rhoddwyd dau ganiatâd cynllunio a fyddai'n cael mân effaith ar yr ardal gadwraeth.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 23 – Nifer yr Ardaloedd Cadwraeth gydag asesiadau cyfredol




**Sylwadau:**

Yn dilyn ymgynghoriad, cymeradwywyd Arfarniadau Ardal Gadwraeth Crucywel a Llangatwg gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn ystod y 7fed Cyfnod Monitro (2020/2021).

**Argymhellion:**

Byddai asesiad yn cael ei sbarduno ar gyfer y dangosydd hwn pe na bai'r Asesiadau Ardal Gadwraeth yn cael eu cwblhau erbyn diwedd 2017. Mae arfarniadau bellach wedi'u cwblhau ar gyfer Ardaloedd Cadwraeth Aberhonddu, Y Gelli Gandryll, Talgarth, Crucywel a Llangatwg. Yn unol â hynny, nid oes angen monitro pellach.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Wedi Rhoi'r Gorau i Fonitro** |
| | **Wedi'i gwblhau yn ystod y seithfed cyfnod monitro.** |

## Ffigur 24 – Canllawiau Cynllunio Atodol

| **Canllawiau Cynllunio Atodol** | |
|---|---|
| Yn unol â gofynion Fframwaith Monitro'r CDLl, mae'r Aelodau wedi cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol i'w defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol:<br>• Goleuadau sy'n Tarfu<br>• Archwiliad Bioamrywiaeth<br><br>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol arfaethedig sy'n ymwneud ag Arfer Gorau mewn Bioamrywiaeth wedi'u cyhoeddi a'u cymeradwyo i'w defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol. Gohiriwyd cyhoeddi'r CCA hwn, yn rhannol oherwydd y gwaith a wnaed i ymestyn y Canllawiau Cynllunio Atodol Archwiliad Bioamrywiaeth i gynnwys yr Anheddiad Allweddol Lefel 2 sy'n weddill ym Mhontsenni a Defynnog (sydd hefyd wedi'i ardystio). | |
| **Sylw:**<br><br>Dim. | |
| **Argymhelliad:**<br><br>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol wedi'u cwblhau. Yn unol â hynny, nid oes angen monitro pellach. | |
| **Statws** | **Wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod monitro blaenorol.**<br><br>**Archwiliad Bioamrywiaeth wedi'i gwblhau yn 2016.** |

## Newid Hinsawdd, Dylunio Cynaliadwy ac Ynni Adnewyddadwy

### Ffigur 25 – Datblygiad mewn ardaloedd llifogydd C1 a C2 nad ydynt yn bodloni profion Nodyn Cyngor Technegol 15




**Sylwadau:**

Yn ystod y cyfnod monitro hwn, ni roddwyd unrhyw ganiatadau cynllunio mewn parth llifogydd C1 nac C2 yn erbyn y cyngor a'r profion yn Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygiad a'r perygl o lifogydd.

Yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan yr adroddiad monitro hwn, yn dilyn penderfyniad pwyllgor i ganiatáu datblygiad bregus drwy gefnogi Newid Defnydd o fewn parth llifogydd C2, cafodd cais ei alw i mewn i'w benderfynu gan Weinidogion Cymru, a chafodd ei wrthod.

**Argymhellion:**

Nodwn fod disgwyl cyhoeddi NCT15 (Nodyn Cyngor Technegol 15) diwygiedig o fewn y 9fed Cyfnod Monitro, ac y bydd CNC yn diwygio eu safbwynt mewn perthynas ag asesu ACLl (Asesiad Canlyniadau Llifogydd) mewn ardaloedd o lifogydd, fodd bynnag, gallai hyn cael ei ohirio ar ôl ymgynghoriad cyhoeddus. O ystyried newidiadau cyd-destunol, byddwn yn parhau i fonitro gweithrediad y polisi hwn.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 26 – Caniatadau cynllunio yn groes i gyngor Cyfoeth Naturiol Cymru a Dŵr Cymru ynghylch ansawdd/cyfaint dŵr




**Sylwadau:**

Dim.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, ystyrir ei fod yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro, yn enwedig o ystyried Asesiad Cydymffurfiaeth Cyfoeth Naturiol Cymru o ACAau Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws (Adroddiad Tystiolaeth 489) a chanllawiau ymarfer cysylltiedig, sy'n cael effaith sylweddol ar y cwmpas ar gyfer datblygu yn llawer o'r Parc Cenedlaethol.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 27 – Nifer y ceisiadau sy'n ystyried technegau addasu newid hinsawdd o fewn Datganiadau Dylunio a Mynediad




**Sylwadau:**

Dim.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 28 – Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mwy sy'n methu â darparu 20% o'u hynni o adnoddau carbon isel neu ddi-garbon

| **Nifer y ceisiadau ar gyfer datblygiadau mwy sy'n methu â darparu 20% o'u hynni o adnoddau carbon isel neu ddi-garbon** | |
|---|---|
| Wedi Rhoi’r Gorau i Fonitro | |
| **Sylw:**<br>Cododd y dangosydd hwn oherwydd gofynion Polisi PS11 (Datblygu Cynaliadwy) gan iddo gael ei ddrafftio'n wreiddiol yn y Cynllun Datblygu Lleol ar Adnau. Fodd bynnag, tynnwyd y gofyniad penodol hwn o'r polisi gan yr Arolygydd yn ystod Archwiliad y Cynllun Datblygu Lleol ar y sail ei fod y tu hwnt i ofynion Polisi Cynllunio Cenedlaethol. Mae'r dangosydd yn parhau yn y Fframwaith Monitro trwy wall gan na sylwyd arno yn ystod y broses olygu ac ni chafodd ei ddiwygio trwy'r Newidiadau Materion sy'n Codi.<br><br>Nid oes polisi yn y Cynllun i orfodi'r gofyniad hwn ac, yn unol â hynny, argymhellir rhoi’r gorau i fonitro’r dangosydd hwn. | |
| **Argymhelliad:**<br>Rhoi’r Gorau i Fonitro | |
| **Statws** | **Wedi rhoi’r gorau i fonitro yn dilyn y cyfnod monitro blaenorol** |

## Ffigur 29 – Datblygu cynlluniau ynni adnewyddadwy







**Sylwadau:**

Yn ystod y 7fed cyfnod monitro, cynhaliwyd Archwiliadau Ynni Cymunedol ar draws y Parc Cenedlaethol, ochr yn ochr â dadansoddiad lleihau allyriadau C02 (Tachwedd 2020) ac, yn fwy diweddar, Cyllideb Carbon Paris-Gydymffurfiol sy'n canolbwyntio ar ynni yn unig. Dangosodd y dadansoddiad lleihau allyriadau mai dim ond un Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (Y Dafarn

Newydd 4) ar draws y Parc Cenedlaethol cyfan oedd wedi cyrraedd targed lleihau allyriadau Llywodraeth Cymru o 3% y flwyddyn rhwng 2010 a 2018. Yn ystod y cyfnod hwn roedd allyriadau mewn un Ardal Gynnyrch Ehangach Haen Is (Goetre Fawr 1) wedi cynyddu.

Ar ben hynny, er mwyn i'r Parc Cenedlaethol wneud ei gyfraniad 'teg' tuag at Gytundeb Paris, mae'r Gyllideb Garbon sy'n seiliedig ar ardal yn nodi bod angen gwneud y canlynol:

- Aros o fewn uchafswm cyllideb allyriadau carbon deuocsid cronnus o 1,557 mil o dunelli (ktCO2) ar gyfer y cyfnod 2020 i 2100;
- Cychwyn rhaglen uniongyrchol o liniaru CO2 i sicrhau toriadau blynyddol mewn allyriadau ar gyfartaledd o 14% i gyflawni cyllideb garbon sy’n cydymffurfio â Chytundeb Paris; a
- Chyrraedd sero-net neu'n agos at y targed hwn erbyn 2039 fan bellaf.

Mae'r adroddiad sy’n sail i'r gyllideb yn argymell y dylai'r Parc Cenedlaethol:

- gynyddu atafaelu CO2 drwy ddefnydd tir, newid defnydd tir a choedwigaeth (LULUCF), er enghraifft drwy alinio ag uchelgais lefel uchel y Pwyllgor Newid Hinsawdd o blannu coed, gwella cynnyrch coedwigaeth a rheoli coedwigaeth; a
- sicrhau bod yr atafaelu CO2 yma hefyd yn ddigonol i helpu i wneud iawn am allyriadau di-CO2 o fewn y Parc Cenedlaethol.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |
|---|---|

## Ffigur 30 – Capasiti a ganiateir ac a osodir (MW) o brosiectau trydan a gwres adnewyddadwy




**Sylwadau:**

Cyfanswm y cynnydd capasiti ers i'r monitro ddechrau yw 5.084 Megawat.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 31 – Canllawiau Cynllunio Atodol

| **Canllawiau Cynllunio Atodol** | |
|---|---|
| Yn unol â gofynion Fframwaith Monitro'r Cynllun Datblygu Lleol, mae'r Aelodau wedi cymeradwyo'r Canllawiau Cynllunio Atodol canlynol i'w defnyddio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio perthnasol:<br><br>• Datblygu Cynaliadwy ym Mharciau Cenedlaethol Cymru<br>• Datblygiadau Ynni Adnewyddadwy ar Raddfa Fach | |
| **Sylw:**<br>Dim. | |
| **Argymhelliad:**<br>Mae'r Canllawiau Cynllunio Atodol perthnasol wedi'u cwblhau. Yn unol â hynny, nid oes angen monitro pellach. | |
| **Statws** | **Wedi'i gwblhau yn ystod y cyfnod monitro blaenorol.** |

## Manwerthu

### Ffigur 32 – Cyfraddau eiddo gwag blynyddol Canol Trefi




| Cyfnod Monitro | Aberhonddu | Crucywel | Y Gelli Gandryll | Talgarth |
|---|---|---|---|---|
| Cyntaf | 9% | 6% | 2% | 8% |
| Ail | 8% | 4% | 2% | 11% |
| Trydydd | 7% | 3% | 3% | 9% |
| Pedwerydd | 10% | 4% | 4% | 4% |
| Pumed | 11% | 8% | 7% | 4% |
| Chweched | 12% | 5% | 7% | 2% |
| Seithfed | 9% | 3% | 7% | 0% |
| Wythfed | 9% | 1% | 5% | 0% |
| Nawfed | 6% | 1% | 7% | 4% |
| Degfed | 9% | 3% | 4% | 7% |

**Sylwadau:**

Pwrpas y dangosydd hwn yw mynd i'r afael ag 'iechyd' y canolfannau manwerthu yn y Parc Cenedlaethol. Mae cyfraddau eiddo gwag yn cael eu monitro o fewn ardaloedd diffiniedig o'r dref lle mae amcan strategol i gefnogi goruchafiaeth defnyddiau manwerthu neu ganol tref. Yn ystod y cyfnod monitro hwn, mae hawliau datblygu caniataol dros dro wedi'u cyflwyno, a thrwyddedu wedi'i wneud yn fwy hyblyg mewn ymgais i gefnogi bywiogrwydd canol trefi. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar Ganllawiau Cynllunio Atodol Canol Trefi drafft a phenderfynir a ddylid cyflwyno'r rhain os na wneir yr hawliau datblygu caniataol dros dro yn barhaol.

Mae gwaith yn mynd rhagddo drwy'r broses Cynllun Bro i fynd i'r afael ag iechyd manwerthu Aberhonddu, fodd bynnag, gwrthodwyd cynlluniau ar gyfer "Ardal Gwella Busnes" yn Aberhonddu gan fusnesau yn 2020. Bydd y tîm Polisi yn parhau i weithio gydag asiantaethau allanol i archwilio sut i gefnogi ein canolfannau manwerthu a gweithio i ddatblygu arfer gorau ar gyfer y CDLl2 datblygol.

**Argymhellion:**

Bydd y dangosydd hwn yn cael ei fonitro am flwyddyn arall.
Ymchwil polisi pellach i'w gynnal i'w gynnwys yn CDLl2.
Gweithio ar y cyd rhwng y tîm Polisi a mentrau adfywio canol trefi.

| **Statws** | **Ymchwil Polisi** |
|---|---|

## Twristiaeth Gynaliadwy

### Ffigur 33 – Nifer y cyfleusterau twristiaeth newydd neu well




**Sylwadau:**

Mae'r ceisiadau a gymeradwywyd o fewn y degfed cyfnod monitro yn cynnwys:

| Cyfeiriad | Cyf | Disgrifiad o'r Datblygiad |
|---|---|---|
| Athlwys Cottage<br>Twyn Allwys Road<br>Gofilon<br>NP7 9RT | 22/20778/FUL | Lleoli cwt bugail arfaethedig at ddibenion llety gwyliau |
| Gelliwiglan<br>Gwynfe<br>Llangadog<br>Sir Gaerfyrddin<br>SA19 9RN | 22/21164/FUL | Trosi Ysgubor yn Uned Llety Twristiaeth |
| Aber Farm<br>Tal-y-bont ar Wysg<br>Aberhonddu<br>Powys<br>LD3 7YS | 21/20027/FUL | Newid defnydd materol o dir defnydd amaethyddol i ddefnydd cymysg o ddefnydd amaethyddiaeth a llety twristiaid trwy leoli 2 gwt bugail (Ôl-weithredol) |
| Pentretruscoed Farm<br>Pont Nedd Fechan<br>Castell-nedd<br>SA11 5UP | 22/20814/FUL | Ysgubor Amaethyddol Bresennol - Newid Defnydd i Annedd - i'w ddefnyddio fel llety gwyliau. |

| | | |
|---|---|---|
| Byngalo Isaf<br>Capel-y-ffin<br>Y Fenni<br>NP7 7NP | 21/20601/FUL | Cais i drosi hen ysgubor a chelloedd mynachaidd cysylltiedig yn llety gwyliau, gan gynnwys uwchraddio'r system trin dŵr budr ar gyfer y trawsnewidiad arfaethedig a'r annedd gyfagos. |
| Chapel Farm<br>Coal Pit Road<br>Pwll Glo Fforest<br>Sir Fynwy<br>NP7 7LL | 21/20292/FUL | Trosi Ysgubor yn Llety Gwyliau arfaethedig |
| Radnor House<br>Church Street<br>Y Gelli Gandryll<br>Henffordd<br>HR3 5DQ | 23/21929/FUL | Newid defnydd o annedd gyda llety gwely a brecwast (C1) i annedd lawn (C3) |
| Ysgubornewydd<br>Ffrwdgrech<br>Aberhonddu<br>LD3 8LE | 23/22175/FUL | Safle glampio tymhorol a chyfleusterau ar dir ar Fferm Ysgubornewydd |
| Cwm Porth<br>Ystradfellte<br>Aberdâr<br>CF44 9JF | 22/21362/FUL | Cais cynllunio llawn ar gyfer 4 pod Twristiaeth Amharhaol<br>Gan gynnwys uwchraddio ardal fynediad, parcio a throi bresennol a darpariaeth draenio dŵr gwastraff. |
| Canolfan Fynydd Bannau Brycheiniog<br>Libanus<br>Aberhonddu<br>Powys<br>LD3 8ER | 23/21727/FUL | Gosod ystafell ddosbarth fodiwlaidd yng Nghanolfan Ymwelwyr y Parc Cenedlaethol i ddarparu cyfleusterau sych, dan do ar gyfer y grwpiau ysgol presennol sy'n mynychu'r Ganolfan am brofiad dysgu awyr agored o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog |
| Abergwdi Farm<br>Ffrwdgrech<br>Aberhonddu<br>LD3 8NA | 23/21767/FUL | Cais ôl-weithredol ar gyfer safle glampio tymhorol sy'n cynnwys 2 gwt bugail, un babell gloch, unedau amwynder tŷ bach a chawod a chyfleuster parcio. Hefyd, gwella'r trefniant carthion ar gyfer Glangwdi gan gynnwys ymgorffori'r safle glampio gyda chyfleuster trin carthion parod a chae draenio. |
| 5 Taf Fechan Houses<br>Pontsticill<br>Merthyr Tudful<br>CF48 2UW | 22/21663/FUL | Trosi garej ar wahân i greu llety gwyliau newydd |
| Ysgubor yn Yew Tree Farm<br>Llanelen<br>Y Fenni<br>NP7 9LB | 23/21847/FUL | Trosi ysgubor yn uned llety gwyliau; gosod dau gwt bugail ar gyfer llety gwyliau, a gosod cyfleuster trin carthion parod. |
| Lower Trewalkin<br>Talgarth<br>LD3 0HA | 23/21965/FUL | Cais i newid defnydd anecs domestig ategol yn llety gwyliau a darpariaeth ar gyfer tir amwynder cysylltiedig o fewn y cwrtil a gysylltwyd yn flaenorol â'r adeilad a droswyd. |

| | | |
|---|---|---|
| Cwm Uchaf Farm<br>Oak Lane<br>Llanelen<br>Sir Fynwy<br>NP7 9LD | 23/21718/FUL | Trosi adeilad stablau yn 2 uned arfaethedig o lety gwyliau ar ffurf byncws |

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

# Cymunedau Cynaliadwy

## Ffigur 34 – Nifer y ceisiadau a gymeradwywyd sy'n arwain at golli cyfleusterau cymunedol




**Sylwadau:**

Ni chymeradwywyd unrhyw geisiadau cynllunio yn groes i ddarpariaethau Polisi Strategol PS15 a nod amddiffynnol Polisi 50 yn arwain at golli cyfleusterau cymunedol.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Seilwaith

### Ffigur 35 – Nifer y datblygiadau newydd sy'n darparu SDCau (Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy)

| **Nifer y datblygiadau newydd sy'n darparu SDCau (Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy)** | |
|---|---|
| Wedi Rhoi'r Gorau i Fonitro - Roedd yr holl geisiadau perthnasol a gymeradwywyd yn ystyried y gofyniad am SDCau. | |
| **Sylw:**<br>O 7 Ionawr 2019, bydd angen systemau draenio cynaliadwy ar bob datblygiad newydd sydd â goblygiadau ar gyfer draenio i fwy nag 1 tŷ neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100m2 neu fwy er mwyn rheoli dŵr wyneb ar y safle. Rhaid dylunio ac adeiladu systemau draenio dŵr wyneb yn unol â'r safonau gorfodol ar gyfer draenio cynaliadwy a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru. Rhaid i'r systemau gael eu cymeradwyo gan yr awdurdod lleol ar gyfer yr ardal sy'n gweithredu fel Corff Cymeradwyo (Systemau Draenio Trefol Cynaliadwy) (CCS) cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.<br><br>O ystyried datblygiad o fewn Polisi Cenedlaethol, teimlir bod amcanion y CDLl mewn perthynas â darparu SDCau (Systemau Draenio Cynaliadwy) yn cael sylw drwy ofynion cenedlaethol y system gynllunio. Yn unol â hynny, nid oes angen monitro'r elfen hon o bolisi'r cynllun mwyach. | |
| **Argymhelliad:**<br>Rhoi'r Gorau i Fonitro | |
| **Statws** | **Wedi rhoi'r gorau i fonitro yn dilyn y cyfnod monitro blaenorol** |

## Gwastraff

### Ffigur 36 – Nifer yr unedau gwag o fewn safleoedd Dosbarth B y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cyfleuster gwastraff lleol




| Capasiti unedau gwag o fewn safleoedd Dosbarth B y nodwyd eu bod yn addas ar gyfer cyfleuster gwastraff lleol (m2) | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfnod Monitro | Parc Menter Aberhonddu (m2) | Ystâd Ddiwydiannol Ffrwdgrech, Aberhonddu (m2) | Parc Busnes Talgarth (m2) | Elvicta, Crucywel (m2) | Parc Granada, Llangatwg (m2) | Parc Busnes Greenfield, Y Gelli (m2) | Pontsenni (m2) |
| Cyntaf | | 500 | 316 | | 758 | | |
| Ail | | 540.3 | 324.8 | | 2700 | 101.71 | |
| Trydydd | | 417.4 | | | 258.3 | | |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pedwerydd | | 697.86 | 330.5 | | | | |
| Pumed | 1213.32 | 697.86 | 867.68 | 2342.99 | | | 3438.12 |
| Chweched a Seithfed | 1213.32 | 1423.58 | 867.68 | 2342.99 | 758.79 | | 456.52 |
| Wythfed | 1207.33 | 1729.75 | 537.17 | 1706.61 | 205.53 | 99.81 | 333.72 |
| Nawfed | 1236.42 | 1339.78 | 527.46 | 1162.09 | 420.71 | 99.82 | |
| Degfed | 1236.42 | 860.42 | 527.46 | 470.29 | 916.92 | | |
| **Cyfanswm Cyffredinol** | **6106.81** | **8206.95** | **4298.75** | **8024.97** | **6018.25** | **301.34** | **4228.36** |

**Sylwadau:**

Mae yna gapasiti o fewn safleoedd cyflogaeth dynodedig.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| | |
|---|---|
| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |

## Ffigur 37 – Nifer y cyfleusterau rheoli gwastraff trwyddedig newydd a ganiateir




**Sylwadau:**

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau o fewn y cyfnodau monitro ar gyfer cyfleusterau rheoli gwastraff newydd yn y Parc Cenedlaethol.

**Argymhellion:**

Bydd y dangosydd hwn yn parhau i gael ei fonitro a'r angen am safleoedd/capasiti ychwanegol o fewn safleoedd cyflogaeth yn cael ei drin drwy ddyraniad/polisi priodol yn ôl yr angen yn CDLl2.

| **Statws** | **Parhau i Fonitro** |
|---|---|

# Mwynau

## Ffigur 38 – Nifer y caniatadau ar gyfer datblygiad sterileiddio parhaol o fewn ardal diogelu mwynau




**Sylwadau:**

Dim.

**Argymhellion:**

Mae gofyniad y dangosydd hwn yn cael ei fodloni. Fodd bynnag, fe'i hystyrir yn ddangosydd pwysig a bydd yn parhau i gael ei fonitro.

| Statws | Parhau i Fonitro |
|---|---|

## Monitro Safle

Fel rhan o'r broses Adroddiad Monitro Blynyddol, mae'r Awdurdod wedi cytuno i gynnwys diweddariad ar gynnydd a datblygiad safleoedd dynodedig. Y bwriad yw tynnu sylw at y gweithgaredd sydd wedi digwydd, gan gynnwys paratoi astudiaethau, ceisiadau a/neu gynnydd datblygu. Yn unol â hynny, mae'r tabl a nodir isod yn dangos cynnydd safleoedd dynodedig yn erbyn cerrig milltir cynnydd:

### Ffigur 39

| Safle | Nifer ddangosol yr unedau | Briff Datblygu wedi'i Gyfwyno | Briff Datblygu wedi'i Gytuno | | Cais wedi'i Gyflwyno | Bwriad i Ganiatáu yn amodol ar A106 | Caniatâd Cynllunio | Datblygiad wedi Dechrau |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 Mlynedd Gyntaf | | | | | | | | |
| CS28 – Ymestyn Caeau Cwmffaldau, Aberhonddu | 66 | Dd/B | Dd/B | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| CS132 - Tir gyferbyn ag Ysgol Uwchradd, Aberhonddu | 30 | Oes | Oes | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| HALEN 061 – Tir yn ffinio â Llangenny Lane, Crucywel | 20 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| DBR-HOW-A – Tir Gyferbyn â'r Dolydd, Y Gelli | 62 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| HALEN 059 – Tir yn ffinio â Brecon Pharmaceuticals, Y Gelli | 5 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Nac oes |
| HALEN 037 – Estyniad arfaethedig i T9, Talgarth | 15 | Oes | Oes | | Oes | Oes | Oes | Nac oes |
| DBR-BCH-J - Tir yn ffinio â Choed Bwlch, Bwlch | 15 | Dd/B | Dd/B | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CS102 – Dan-y-Bryn a Lancaster Drive, Gilwern | 112 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| DBR-LIB-E – Tir yn ffinio â Pen y Fan Close, Libanus | 3 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| DBR-LBD-A – Tir yn ffinio â St Peter's Close | 8 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| DBR-LGN-D – Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Llanigon, Llanigon | 10 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| DBR-LPD-A – Tir oddi ar Heol St Cattwg, Llansbyddyd | 10 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Nac oes |
| DBR-PNT-D – Tir yn ffinio ag Ambleside, Pennorth | 6 | Dd/B | Dd/B | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| CS66 – Cyn Wersyll y Fyddin, Cwrt y Gollen | 70 | Oes | Oes | | Oes | Oes | Oes | Nac oes |
| Gweddill Cyfnod y CDLl | | | | | | | | |
| CS93 – Slwch House Field, Aberhonddu | 23 | Dd/B | Dd/B | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| DBR-BR-A – Safle wedi'i leoli i'r Gogledd o Camden Crescent, Aberhonddu | 38 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| DBR-BR-B – Tir i'r gogledd o Cradoc Close, Aberhonddu | 33 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| CS132 - Tir gyferbyn ag Ysgol Uwchradd, Aberhonddu | 107 | Oes | Oes | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| DBR-CR-A – Tir uwchben Televillage, Crucywel | 20 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Oes |
| CS138 – Glannau Senni, Defynnog | 15 | Dd/B | Dd/B | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| DBR-HOW-C –Tir yn ffinio â’r Orsaf Dân | 13 | Dd/B | Dd/B | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| CS42 – Tir yng Nghrai, Crai | 9 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Nac oes |
| CS43 – Tir i’r de-orllewin o Gwalia, Crai | 6 | Dd/B | Dd/B | | Oes (rhan o’r safle) | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| CS39/69/70/88/89/99 – Tir yn Nhŷ Clyd, Gofilon | 93 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes (rhan o’r safle) | Nac oes |
| CS120 – Tir i'r de o Dŷ Melys, Pencelli | 6 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Nac oes | Nac oes |
| CS55 – Tir ym Mhenygarn, Pontsticill | 6 | Dd/B | Dd/B | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| DBR-PTSC/C – Tir wrth ben Dan-y-Coed, Pontsticill | 3 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Oes | Oes | Nac oes |
| CS91 – Tir i'r gorllewin o Dŷ Ponsticill, Pontsticill | 6 | Dd/B | Dd/B | | Oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| CS127 – Maesmawr Farm, Tal-y-bont | 57 | Dd/B | Dd/B | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |
| CS111 – Cyn-Ysbyty Canolbarth Cymru | 93 | Oes | Oes | | Nac oes | Nac oes | Nac oes | Nac oes |

### *Y 5 Mlynedd Gyntaf*

Nodir bod 11 safle ar gyfer y cyfnod hwn wedi cael eu symud ymlaen i'r cam cais cynllunio, gyda 5 datblygwr wedi dechrau datblygu ar y safle. Mae 4 safle arall wedi symud ymlaen o fewn camau ystyried a phenderfynu ar gais cynllunio.

### *Gweddill Cyfnod y Cynllun*

Yn ôl y disgwyl, bu llai o weithgarwch mewn perthynas â'r safleoedd hyn gyda 10 safle yn cael eu symud ymlaen i gam ymgeisio, ac mae saith ohonynt, yn rhannol o leiaf, wedi'u caniatáu. O'r saith caniatâd a roddwyd, cwblhawyd un safle datblygu o 22 uned ac mae dau yn cael eu hadeiladu. Gwerthfawrogir bod nifer o'r safleoedd hyn wedi'u cyfyngu gan y materion sy'n ymwneud â seilwaith dŵr, ond er bod llawer o waith gwella dŵr bellach wedi'i gwblhau, mae

tystiolaeth sy'n dangos methiannau yn erbyn targedau ffosffad ACA, yn enwedig yn afonydd Wysg a Gwy, yn cyflwyno her newydd i'w datrys ar gyfer yr holl safleoedd dynodedig sy'n weddill ac eithrio'r rhai ym Mhontsticill, y mae angen eu symud ymlaen gyda chyfranogiad cymunedol fel setliad twf cyfyngedig.

***Safleoedd Defnydd Cymysg***

Wrth edrych ar y safleoedd defnydd cymysg dynodedig (Ysbyty Canolbarth Cymru, Cwrt y Gollen, Hay Road a Thir Gyferbyn ag Ysgol Uwchradd), dylid nodi bod paragraff 7.2.1 o'r Cynllun Datblygu Lleol yn ei gwneud yn ofynnol i friffiau datblygu gael eu cytuno ar y safle cyn cyflwyno unrhyw gais cynllunio. Mae pob safle bellach wedi mabwysiadu Briffiau Datblygu sy'n gysylltiedig â nhw, a dim ond safle hen ysbyty canolbarth Cymru sy'n parhau heb ganiatâd cynllunio ar gyfer ailddatblygu.

# Atodiadau

## Atodiad 1 – Graff a thabl o dai a gwblhawyd yn erbyn Gofyniad Cyfartalog Blynyddol y CDLl




| Blwyddyn | Tai a Gwblhawyd | Gofyniad Cyfartalog Blynyddol |
|---|---|---|
| 2007/08 | 65 | 133 |
| 2008/09 | 55 | 133 |
| 2009/10 | 45 | 133 |
| 2010/11 | 19 | 133 |
| 2011/12 | 67 | 133 |
| 2012/13 | 87 | 133 |
| 2013/14 | 85 | 133 |
| 2014/15 | 45 | 133 |

| | | |
|---|---|---|
| 2015/16 | 58 | 133 |
| 2016/17 | 52 | 133 |
| 2017/18 | 203 | 133 |
| 2018/19 | 89 | 133 |
| 2019/20 | 30 | 133 |
| 2020/21 | 67 | 133 |
| 2021/22 | 59 | 133 |
| 2022/23 | 69 | 133 |
| 2023/24 | 15 | 133 |
| **Cyfanswm** | **1,110** | **1995*** |

***Sylwch: Bydd talgrynnu'r Gofyniad Cyfartalog Blynyddol yn arwain at wahaniaeth o 5 uned (yn fwy) na chyfanswm Gofyniad Tai CDLl 1990.**

# Atodiad 2 – Dangosyddion Asesu Cynaliadwyedd Ychwanegol

***Sylwch, yng nghyfarfod Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 21 Medi 2018, tynnodd yr Aelodau sylw at y problemau gyda'r data a adroddir yn yr Atodiad hwn. Casglwyd y data o Adroddiad Cyflwr y Parc (2014).***

***Rydym bellach yn eich cyfeirio at Adroddiad Cyflwr y Parc 2020:***

***https://bannau.cymru/yr-awdurdod/amdanom-ni/cynllun-rheoli2019r-parc-cenedlaethol/adroddiad-cyflwr-y-parc-2/.***

***Yn y dyfodol bydd Donyt y Parc Cenedlaethol yn cyflawni'r rôl hon.***

| Pwnc AC | Dangosyddion | Canfyddiadau | Tuedd Gyffredinol |
|---|---|---|---|
| Ffactorau hinsoddol | Cyflwr SoDdGAau (Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig) Biolegol | Gyda lefelau amrywiol o hyder, mae 47 o 65 o nodweddion ACA (>72%) mewn statws cadwraeth anffafriol (asesiadau dangosol CNC 2020).<br><br>Ffynhonnell data: https://naturalresources.wales/evidence-and-data/research-and-reports/protected-sites-baseline-assessment-2020/?lang=cy<br><br>Mae 65 o SoDdGAau biolegol yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ffin y Parc Cenedlaethol gyda chyfanswm o 163 o nodweddion biolegol unigol (CNC 2014).<br><br>Yn 2006 roedd 82 o nodweddion biolegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol, roedd 24 (29%) o'r rhain mewn cyflwr ffafriol, 45 (55%) mewn cyflwr anffafriol, un (1%) wedi'i dinistrio yn rhannol a 12 (15%) yn anhysbys. O'r 45 nodwedd fiolegol mewn cyflwr anffafriol, roedd 11 (24%) o'r rhain | Ddim yn dangos y gwelliant sydyn sydd ei angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | yn gwella, roedd 11 (24%) yn dirywio ac nid oedd y duedd yn hysbys ar gyfer 23 (50%).<br><br>Yn 2014 roedd 163 o nodweddion biolegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol, 93 (57%) ohonynt mewn cyflwr ffafriol, 51 (31%) mewn cyflwr anffafriol a 19 (12%) mewn cyflwr anhysbys.<br><br>Yn 2017 roedd 163 o nodweddion biolegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol, 88 (54%) ohonynt mewn cyflwr ffafriol, 55 (34%) mewn cyflwr anffafriol ac 20 (12%) mewn cyflwr anhysbys.<br><br>Mae canran y nodweddion mewn cyflwr anffafriol wedi cynyddu ychydig ac mae canran y nodweddion mewn cyflwr ffafriol wedi gostwng ychydig. | |
| | Ansawdd dŵr | Ym mis Ionawr 2021, cyhoeddodd Cyfoeth Naturiol Cymru 'Adroddiad tystiolaeth 489 – Asesiad Cydymffurfiaeth ACAau (Ardaloedd Cadwraeth Arbennig) Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws'.<br><br>Pryder mawr yw ei fod yn adrodd:<br><br>"Afon Wysg yw'r afon SAC sy'n perfformio waethaf yng Nghymru o ran ei thargedau ffosfforws o bell ffordd, a hi yw'r unig afon lle mae methiannau helaeth yn y blaenddyfroedd."<br><br>Ar hyn o bryd mae nifer sylweddol o afonydd nad ydynt yn cyflawni statws ecolegol da yn unol â'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r holl afonydd sydd angen asesiad ar gyfer eu statws cemegol mewn cyflwr da. | Ddim yn dangos y gwelliant sydyn sydd ei angen. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Fel yr amlinellwyd yn ACyP 2020, ni chafodd y rhan fwyaf o'r cyrff dŵr a arolygwyd gan CNC eu hasesu tan 2013. Rhwng y blynyddoedd 2009 (gwaelodlin) a 2012 ni chafodd y cyrff dŵr eu hasesu. Rhwng y blynyddoedd 2013 – 2015 roedd pob corff dŵr o statws cemegol 'Da', gyda phob un ohonynt yn cyflawni statws 'Uchel' erbyn 2017. Roedd pob corff dŵr wedi dirywio i statws 'Da' erbyn 2018.<br><br>O gymharu â gwaelodlin 2009, mae dau o'r cyrff dŵr wedi gwella o gymedrol i dda, mae dau wedi aros yr un fath, ac mae un wedi dirywio o dda i gymedrol.<br><br>Cafodd 3 allan o'r 6 chorff dŵr a arolygwyd yn y Parc statws cyffredinol da. Dim ond statws cymedrol y llwyddodd y 3 chorff dŵr arall i'w gyflawni. Felly bu gwelliant ers data gwaelodlin 2009 - dim ond dau gorff dŵr a gyflawnodd statws da bryd hynny. Fodd bynnag, ni fu gwelliant ers 2017, ac nid oes unrhyw gyrff dŵr yn gwella. | |
| | Ansawdd aer | Nid yw data ar ddangosyddion amlygiad ansawdd aer wedi'i gasglu'n benodol ar gyfer ardal y Parc Cenedlaethol, dim ond ar gyfer y 7 awdurdod unedol unigol sy'n ffurfio'r Parc Cenedlaethol, fodd bynnag, mae'r dangosyddion yn dangos bod pob un o'r 7 awdurdod unedol wedi gostwng rhwng 2009-2017, gan nodi gwelliant mewn ansawdd aer.<br><br>Yn benodol, mae'r ddau awdurdod unedol sy'n cyfrif am fwyafrif y Parc, Powys a Sir Gaerfyrddin, yn sylweddol is na'r awdurdodau unedol eraill. | Niwtral |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Nid oes unrhyw ardaloedd rheoli ansawdd aer yn y Parc Cenedlaethol<br><br>Fodd bynnag, mae mapio a ryddhawyd yn ddiweddar gan y Gwasanaeth Gwybodaeth am Lygredd Aer yn ei gwneud yn glir bod dyddodiad nitrogen a sylffwr (o ffynonellau hir- a byrdymor) yn fwy na'r llwythi critigol perthnasol ar gyfer rhai Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. | |
| | Cyfaint dŵr | Mae Strategaethau Rheoli Dalgylchoedd (SRhDau) ar waith ar gyfer ardal gyfan y Parc Cenedlaethol.<br><br>Mae dŵr ar gael i'w dynnu yn llawer o ardal Sir Gaerfyrddin yn y Parc Cenedlaethol.<br><br>Diffinnir y rhan fwyaf o ardal y PC (Parc Cenedlaethol) fel Wedi'i Gordynnu, gydag ardaloedd bach yn cael eu diffinio fel Dim Dŵr Ar Gael neu Wedi'u Gordynnu. Nid yw'r data hwn wedi newid ers dechrau cyfnod y cynllun. | Ddim yn dangos y gwelliant sydd ei angen. |
| | Geoamrywiaeth | Ar hyn o bryd mae 76 o Safleoedd Geoamrywiaeth o Bwys Rhyngwladol yn y Parc, ac ar ddechrau'r cyfnod cynllunio roedd 11. Mae cyflwr y safleoedd wedi'i nodi fel a ganlyn: -<br><br>3% - Gwael<br><br>5% - Yn dirywio<br><br>9% - Sefydlog<br><br>67% - Da<br><br>16% - Ardderchog<br><br>Yn 2006 roedd pob un o'r 11 safle mewn cyflwr da (ffynhonnell data ACyP 2014). | Niwtral |
| | Cyflwr SoDdGAau Daearegol | Mae 34 o SoDdGAau daearegol yn gyfan gwbl neu'n rhannol o fewn ffin y Parc Cenedlaethol.<br><br>Yn 2014 roedd 34 o nodweddion daearegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol, gyda 31 (91%) | Niwtral |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ohonynt mewn cyflwr ffafriol, 1 (3%) mewn cyflwr anffafriol a 2 (5%) mewn cyflwr anhysbys.<br><br>Yn 2017 roedd 34 o nodweddion daearegol o bwys yn y Parc Cenedlaethol, gyda 30 (88%) ohonynt mewn cyflwr ffafriol, 1 (3%) mewn cyflwr anffafriol a 3 (9%) mewn cyflwr anhysbys.<br><br>Mae cyflwr y SoDdGAau daearegol yn y Parc yn parhau'n weddol sefydlog. Gellid ystyried hyn yn rhywbeth cadarnhaol ond mae hyn hefyd yn amlygu na wnaeth cyflwr y SoDdGAau wella rhwng 2014 a 2017. | |
| | Rhywogaethau Cam Un (Cynefin) | Roedd dros hanner (55%) y cynefinoedd glaswelltir yn laswelltir sydd wedi'i wella. Roedd ychydig dros 1% o'r Parc Cenedlaethol yn amgylchedd adeiledig. Mae 57,347 hectar o Barc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog dan berchnogaeth statudol. O hyn mae 57,347 hectar (39%) wedi'i ddynodi'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), 33% yn eiddo i'r Parc Cenedlaethol, 15% yn eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru, 7% yn eiddo i'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol, 4% yn Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA), 2% yn Warchodfa Natur Genedlaethol (GNG) a llai nag 1% yn eiddo i Ymddiriedolaeth Natur Sir Frycheiniog. Yn ddiweddar, mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi diweddaru a rhyddhau mapiau cynefinoedd Cam I o Gymru drwy ddefnyddio delweddau lloeren. Casglwyd y data dros nifer o flynyddoedd. Gellir cynnal dadansoddiad o newid cynefinoedd dros amser ar yr amod bod cafeatau penodol yn cael eu hystyried wrth gymharu'r data. Mae data Cam 1 wedi'i ddiweddaru yn dangos bod Glaswelltir bellach yn cyfrif am 57% o'r prif fath o gynefin ar draws y Parc Cenedlaethol sy'n dangos gostyngiad o tua 5%. Erbyn hyn mae coetir yn cyfrif am 17% o'r prif fath o gynefin, cynnydd o | Niwtral |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | tua 3%. Mae rhostir bellach yn cyfrif am 10% o'r prif fath o gynefin ar draws y parc, gostyngiad o 1%. (Ffynhonnell data ACyP 2014) | |
| | Henebion Cofrestredig | Yn 2006 roedd 268 o Henebion Cofrestredig yn y parc. O'r rhain, roedd 95.4% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol (257).<br><br>Yn 2014 roedd 357 o Henebion Cofrestredig yn y parc - cynnydd o 89 ers 2006. O'r 357 o henebion yn y parc roedd 95.5% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol.<br><br>Yn 2014 roedd canran ychydig yn llai (0.4%) o Henebion Rhestredig mewn cyflwr ansefydlog neu anffafriol. Er nad yw'r ffigur hwn yn fawr, mae'n werth nodi bod 89 o henebion wedi'u rhestru ers 2006 sy'n golygu bod cyfanswm uwch o Henebion Rhestredig bellach naill ai mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol.<br><br>Yn 2019 roedd 358 o Henebion Rhestredig yn y parc - cynnydd o 1 ers 2014. O'r 358, roedd 72% mewn cyflwr sefydlog neu ffafriol. Mae hyn yn dangos gostyngiad o 20% ers 2014 sy'n dangos bod cyflwr yr Henebion Rhestredig yn y parc yn dirywio. Mae angen gwaith pellach i ddeall y rhesymau am hyn a beth y gellir ei wneud i atal dirywiad pellach. (Ffynhonnell data ACyP 2020) | Dirywio |
| | Adeiladau rhestredig mewn perygl | Yn 2006 roedd 1,711 o adeiladau rhestredig. O'r rhain roedd 11% mewn perygl. Cynyddodd nifer yr adeiladau rhestredig erbyn 2014 i 1,950 o Adeiladau Rhestredig. O'r rhain roedd 6.6% mewn perygl. Mae nifer yr adeiladau rhestredig felly wedi cynyddu tra bod y gyfran sydd mewn perygl wedi gostwng ers dechrau cyfnod y cynllun. Yn 2016 roedd nifer yr adeiladau rhestredig wedi cynyddu i 1,951, gyda 5.4% o'r rheini mewn perygl. Yn 2019 roedd nifer yr adeiladau rhestredig wedi cynyddu i 1,952, ond | Cadarnhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | mae'r data ar yr Adeiladau Rhestredig yn y Parc ar ddod.<br><br>(Ffynhonnell data ACyP a CADW) | |
| | % y dirwedd hanesyddol gydag arfarniad cymeriad cyfoes | Mae gan 100% o’r Ardaloedd Tirwedd Hanesyddol arfarniadau cymeriad cyfoes. | Niwtral |
| | Diogelu Archaeolegol | Caiff pob cais cynllunio ei sgrinio am ei effaith ar Archaeoleg | Niwtral |
| | Darpariaeth a chyflymder band eang | Mae prosiect Cyflymu Cymru yn cwmpasu'r rhan fwyaf o Ardal y Parc Cenedlaethol. Erbyn diwedd y prosiect, rhagwelir y bydd gan bob cymuned fynediad at fand eang cyflym. | Niwtral |
| | Teithio i'r gwaith | Mae'r SYG (Swyddfa Ystadegau Gwladol) yn cyhoeddi data ardal teithio i'r gwaith yn seiliedig ar ganfyddiadau Cyfrifiad 2011. Mae'r Parc Cenedlaethol yn cynnwys y 5 Ardal Teithio i'r Gwaith canlynol:<br>- Abertawe<br>- Llanelli<br>- Aberhonddu<br>- Merthyr Tudful<br>- Henffordd | Niwtral |
| | Hyd a chyflwr hawliau tramwy cyhoeddus | Yn 2006 roedd cyfanswm o 1,983km o hawliau tramwy cyhoeddus yn ardal y parc. Yn 2013 roedd hynny wedi cynyddu i 2,009km. Erbyn 2019, roedd wedi gostwng i 1891km.<br><br>Roedd canran yr hawliau tramwy sy'n hawdd eu defnyddio ychydig yn is yn 2013 nag yn 2006, fodd bynnag, roedd 26km yn fwy o hawliau | Cadarnhaol |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | tramwy. Mae hyn wedi cynyddu erbyn 2019. Mae nifer yr hawliau tramwy sy'n hawdd eu defnyddio wedi cynyddu ers 2010/2011 a disgwylir i'r duedd hon barhau. Yn gyffredinol, mae cyflwr cyffredinol y dangosydd hwn yn dda. | |
| | Llwybrau trafnidiaeth gyhoeddus yn y parc | Mae 10 llwybr bws lleol yn gweithredu o fewn y Parc Cenedlaethol.<br><br>24 – Pontsticill-Merthyr Tudful<br><br>30 – Brynmawr-Blaenafon-Pont-y-pŵl-Casnewydd<br><br>T14 – Aberhonddu-Y Gelli Gandryll-Kingstone-Henffordd<br><br>X75 – Merthyr Tudful-Hirwaun-Glyn-nedd-Castell-nedd-Abertawe<br><br>T4 – Y Drenewydd-Llandrindod-Aberhonddu-Merthyr Tudful-Caerdydd<br><br>X4 – Henffordd-Y Fenni-Merthyr Tudful-Caerdydd<br><br>X3 – Henffordd-Y Fenni<br><br>X33 – Y Fenni-Pont-y-pŵl-Cwmbrân-Caerdydd<br><br>X43 – Aberhonddu-Crucywel-Y Fenni<br><br>T6 – Aberhonddu-Ystradgynlais-Castell-nedd-Abertawe | Niwtral |
| | Llwybrau beicio yn y parc | Mae 2 Lwybr Beicio Cenedlaethol pellter hir yn croesi PCBB (Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog)<br><br>-Llwybr Beicio Cenedlaethol 8, Taith Taf<br><br>-Llwybr Beicio Cenedlaethol 42, Lôn Las Cymru | Niwtral |
| | Mynegeion Amddifadedd Lluosog Cymru | Mae ardal y Parc Cenedlaethol yn cynnwys, yn bennaf, AGEHIau (Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is) yn y 50% lleiaf difreintiedig. Mae ardaloedd o amgylch blaenau'r cymoedd yn dangos lefelau uwch o amddifadedd cyffredinol. | Niwtral |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Mae ACyP 2020 yn adrodd bod y dangosydd hwn yn parhau i ddangos tuedd gadarnhaol. | |
| | Ystadegau trosedd | Nid yw'r wybodaeth hon ar gael ar unwaith ar lefel Parc Cenedlaethol; fodd bynnag, mae'n ymddangos bod ystadegau troseddu yn is na'r cyfartaledd o fewn y Parc Cenedlaethol o gymharu â gweddill Cymru. | Niwtral |
| | Dealltwriaeth o’r Gymraeg | Gweler Tabl 1 isod am ddata a gasglwyd ar lefel Ward o gyfrifiad 2001 a 2011. | Negyddol |
| | Boddhad ymwelwyr | Ym mis Tachwedd 2013, cyhoeddodd Grŵp Marchnata a Chydgysylltu Bannau Brycheiniog ganlyniadau Arolwg Ymwelwyr blynyddol Bannau Brycheiniog. Mae rhagor o wybodaeth am yr Arolwg Ymwelwyr ar gael yma. http://www.beacons-npa.gov.uk/communities/tourism-new/tourism-facts-and-figures-1/<br><br>Ar y cyfan, mae profiad ymwelwyr yn dda a dywedodd bron i hanner (48%) yr ymwelwyr ei fod wedi rhagori ar eu disgwyliadau a 51% fod eu disgwyliadau wedi’u bodloni. Dim ond 1% ddywedodd fod eu profiad yn waeth na’r disgwyl. Mae arolwg ymwelwyr Croeso Cymru eleni yn dangos canlyniadau tebyg i Gymru gyfan (49% rhagori a 49% bodloni). Ychydig iawn o amrywiaeth sydd rhwng ymwelwyr dydd ac ymwelwyr sy’n aros dros nos. Daw'r sgoriau uchaf gan ymwelwyr newydd, gyda 56% ohonynt yn dweud bod yr ymweliad wedi rhagori ar eu disgwyliadau. Mae hyn yn galonogol o ran ailymweliadau posibl yn y dyfodol. Mae'r ardal yn creu ychydig mwy o argraff ar ymwelwyr o rai ardaloedd nag eraill. Rhagorwyd ar ddisgwyliadau dros hanner yr ymwelwyr sy'n dod o Lundain a de-ddwyrain Lloegr (53%) a thramor (52%).<br><br>Mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog wedi cyhoeddi arolwg ymwelwyr wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2016-17, sydd i'w weld yma: | Niwtral |

<table>
<tr><td></td><td></td><td>https://www.beacons-npa.gov.uk/wp-content/uploads/Brecon-Beacons-Visitor-Survey-Final-report-May-2017-English-.pdf.<br><br>Yn gyffredinol, mae 85% o ymwelwyr yn nodi bod eu hymweliad â'r parc wedi bod yn 'dda iawn' a 13% yn 'dda'. Ni chofnodwyd unrhyw sgôr negyddol gan y 1,700 o gyfranogwyr. Yn gyffredinol, mae gwasanaeth cwsmeriaid yn cael adborth da mewn amrywiol gyfleusterau, ond llety, atyniadau ymwelwyr a bwytai sy’n denu’r sgoriau uchaf. Ychydig iawn sy'n rhoi barn negyddol ar wasanaeth cwsmeriaid, ond mae 4% yn dweud bod siopau'n wael/gwael iawn ac 13% yn dweud eu bod yn weddol. Dywed 87% eu bod yn debygol iawn o ymweld â'r ardal eto, gan ostwng i 64% ar gyfer ymwelwyr tro cyntaf, ac mae'r rhan fwyaf o'r gweddill yn weddol debygol o ddychwelyd. Barn gadarnhaol iawn ar yr ardal, gyda rhai meysydd i'w gwella. Y dirwedd, yr harddwch a'r amgylchedd digyffwrdd y mae ymwelwyr yn eu mwynhau fwyaf. Mae'r rhan fwyaf yn teimlo bod y Parc yn derbyn gofal da, yn cynnig gwerth da am arian a bod gwybodaeth ar gael yn hawdd. Ychydig sy'n awgrymu gwelliannau, ond mae'r rhain yn cynnwys darpariaeth ar gyfer toiledau, arwyddion a gwybodaeth, cynnal a chadw cyffredinol, parcio, amwynderau, a chysylltedd. Byddai dwy ran o bump yn ystyried rhoi amser neu arian i helpu'r Parc.</td><td></td></tr>
<tr><td></td><td>Safonau addysg</td><td>Roedd y Categorïau Ysgolion Cenedlaethol yn nodi bod yr ysgolion sy'n gwasanaethu ardal y Parc Cenedlaethol fel a ganlyn: -<br><table><tr><th>Categori</th><th>2014</th><th>2015</th><th>2016</th><th>2017</th></tr><tr><td>Coch</td><td>3%</td><td>2%</td><td>0%</td><td>0%</td></tr></table></td><td>Cadarnhaol (Mae'r % Gwyrdd wedi cynyddu 3%. Mae'r % Melyn wedi gostwng 24%. Mae'r ganran Ambr</td></tr>
</table>

<table>
<tr>
<td></td>
<td></td>
<td>
<table>
<tr><td>Ambr</td><td>18%</td><td>23%</td><td>5%</td><td>26%</td></tr>
<tr><td>Melyn</td><td>50%</td><td>41%</td><td>46%</td><td>22%</td></tr>
<tr><td>Gwyrdd</td><td>29%</td><td>34%</td><td>49%</td><td>52%</td></tr>
</table>
</td>
<td>wedi cynyddu 21%, gyda'r rhai Coch yn aros ar 0.)</td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>Nifer y ffermydd a ffermwyr</td>
<td>Mae data o 2014 yn dangos bod 1,445 o swyddi yn cael eu darparu o fewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, pysgota ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog. Fodd bynnag, mae'r sector hwn yn lleihau yn y Parc Cenedlaethol. Roedd swyddi mewn amaethyddiaeth a physgodfeydd yn cynrychioli 10% o'r math o gyflogaeth ym 1991. Erbyn 2001 roedd hyn wedi gostwng i 7.3% ac erbyn 2011 roedd y sector hwn yn cyfrif am 5.9% o'r mathau o gyflogaeth yn y Parc Cenedlaethol. (Ffynhonnell ACyP 2014)<br><br>Adroddodd ACyP 2020 fod ceisiadau am ddata ar ‘arwynebedd tir a ffermir yn ôl math’ o fewn y Parc Cenedlaethol wedi'u hanfon at Lywodraeth Cymru, ond nid oes unrhyw wybodaeth wedi'i darparu eto.</td>
<td>Negyddol</td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td>Gwariant Twristiaid</td>
<td>Roedd gwariant twristiaeth yn 2009 yn £197 miliwn gan godi i £216 miliwn erbyn 2013 a £247 miliwn erbyn 2016 (data STEAM (Monitor Gweithgarwch Economaidd Twristiaeth Scarborough).<br><br>Yn ôl yr Arolwg Ymwelwyr (2016-17): "Fel arfer, mae ymwelwyr sy'n aros yn gwario tua £270 ar lety ond mwy os ydyn nhw’n aros y tu allan i'r Parc (£313) nag yn y Parc (£219).<br><br>Mae gwariant dyddiol ar fwyd a diod yn uwch i'r rhai sy'n aros yn y parc (£67) na'r tu allan (£52) ac yn llawer uwch nag ar gyfer pobl leol (£13) neu ymwelwyr dydd (£14).<br><br>Maint cyfartalog parti yw 3.2 o bobl, sy'n fwy ar gyfer ymwelwyr sy'n aros (3.4) o gymharu â phobl leol (2.8) ac ymwelwyr dydd (3.0)."</td>
<td>Cadarnhaol</td>
</tr>
</table>

## Tabl 1 – Dealltwriaeth o’r Gymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol

Mae'r tabl hwn yn dangos cofnodion data ar gyfer Cyfrifiad 2001 a 2011 ac yn dangos y lefelau sy’n siarad Cymraeg o fewn y Parc Cenedlaethol yn ôl ward etholiadol. Gan nad yw pob ward yn gyfan gwbl o fewn ardal y Parc Cenedlaethol, rhoddir canran y boblogaeth ar gyfer pob ward sy'n byw o fewn y Parc Cenedlaethol hefyd. Mae'r wardiau hynny sydd wedi'u rhestru mewn coch wedi gweld gostyngiad yn lefel y Gymraeg a dealltwriaeth o’r Gymraeg, tra bod y rhai mewn gwyrdd wedi gweld cynnydd mewn dealltwriaeth o’r Gymraeg/gallu trigolion i gyfathrebu yn Gymraeg

| **Dealltwriaeth o’r Gymraeg** | | 2001 | | 2011 | | 2021 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Canran o'r boblogaeth o fewn y ffin** | **Canran sydd â rhywfaint o ddealltwriaeth o’r Gymraeg** | **Canran sy’n gallu siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg** | **Canran sydd â rhywfaint o ddealltwriaeth o’r Gymraeg** | **Canran sy’n gallu siarad, ysgrifennu a darllen Cymraeg** | **Canran sy’n gallu siarad Cymraeg** |
| **Enw'r Ward** | | | | | | |
| Abercraf | 3% | 64.0 | 30.5 | 58.89 | 26.28 | 32.6 |
| Bwlch | 100% | 16.4 | 7.4 | 18.23 | 7.80 | 11.2 |
| Crucywel a Dyffryn Grwyne | 100% | 16.6 | 8.2 | 14.35 | 6.39 | 10.1 |
| Cwmtwrch | 0% | 70.9 | 39.7 | 65.12 | 30.70 | 37.2 |
| Honddu Isaf/Llanddew (Felin-fach) | 3% | 25.0 | 10.5 | 21.48 | 9.85 | 13.5 |
| Gwernyfed + Llanigon | 36% | 15.4 | 6.9 | 14.87 | 6.81 | 10.5 |
| Y Gelli | 100% | 12.3 | 5.5 | 14.39 | 5.82 | 6.3 |
| Llangatwg | 100% | 16.6 | 7.2 | 17.92 | 5.91 | 9.4 |
| Llan-gors | 100% | 23.0 | 10.7 | 19.63 | 8.52 | 11.2 |
| Llangynidr | 100% | 22.9 | 10.5 | 18.24 | 8.59 | 10.6 |
| Maes-car/Llywel, Crai | 100% | 42.6 | 20.4 | 40.16 | 18.09 | 23.7 |
| Aberhonddu Tyddewi | 100% | 22.4 | 9.4 | 20.65 | 9.15 | 10.6 |
| Aberhonddu Sant Ioan | 100% | 25.2 | 12.9 | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberhonddu y Santes Fair | 100% | 21.0 | 9.8 | | | |
| Talgarth | 96% | 19.7 | 7.0 | 20.07 | 8.47 | 10.5 |
| Tal-y-bont, Glyn Tarell, Llanfrynach | 93% | 23.2 | 11.2 | 22.15 | 8.32 | 13 |
| Tawe-Uchaf/Fellte | 57% | 49.4 | 21.4 | 42.97 | 16.24 | 22.7 |
| Ysgir, Trallong | 29% | 29.6 | 12.3 | 27.55 | 12.33 | 14.2 |
| Ystradgynlais (gwledig) | 1% | 66.7 | 31.7 | 57.23 | 24.61 | 32.6 |
| Garnant Cwmaman | 3% | 79.4 | 55.0 | 69.47 | 41.61 | 51.9 |
| Glanaman | 1% | 77.6 | 52.3 | 70.47 | 41.80 | 48.6 |
| Dyffryn Cennen (Llandeilo) | 13% | 70.0 | 42.9 | 66.54 | 36.82 | 47.4 |
| Llanymddyfri, Llanfair | 5% | 60.2 | 35.7 | 54.07 | 29.38 | 36.2 |
| Llandybie | Llai nag 1% | 75.2 | 46.2 | 71.41 | 38.78 | 50.7 |
| Llangadog, Llanddeusant, Myddfai | 45% | 69.0 | 51.6 | 65.16 | 43.81 | 47.2 |
| Cwarter Bach | 6% | 83.3 | 61.7 | 76.62 | 51.25 | 56.8 |
| Rhigos (Hirwaun) | 49% | 32.5 | 13.9 | 29.59 | 12.35 | 14.8 |
| Y Faenor | 12% | 21.3 | 7.8 | 18.05 | 6.79 | 8.5 |
| Brynmawr | 1% | 14.8 | 6.8 | 11.86 | 5.75 | 7.9 |
| Pont-y-pŵl, Y Dafarn Newydd | 0% | 13.5 | 7.7 | 11.91 | 5.83 | 7.8 |
| Y Fenni (gogledd) (Cantref) | 3% | 15.0 | 8.0 | 13.41 | 6.24 | 10 |
| Crucornau | 36% | 12.0 | 7.3 | 14.29 | 7.45 | 9.9 |
| Goetre Fawr | 10% | 14.3 | 8.0 | 15.71 | 8.23 | 10.4 |
| Llanelli | 100% | 15.0 | 7.6 | 14.23 | 6.49 | 8.9 |
| Llan-ffwyst Fawr | 17% | 15.2 | 7.5 | 15.85 | 8.51 | 10.5 |
| Llanofer | 3% | 12.2 | 6.5 | 12.18 | 6.45 | |
| Llangynwyd, Llanwenarth Uwch | 100% | 14.3 | 7.1 | 13.61 | 6.36 | 9.5 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanfynydd, Llandeilo Bertholau, Y Maerdy | 13% | 14.2 | 7.4 | 16.27 | 7.61 | 10.3 |